

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Strategaeth Ddŵr i Gymru

## Cefnogi'r broses o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy



# Rhagair gan y Gweinidog



Dŵr yw un o'n hasedau naturiol pwysicaf, ac mae'n rhan hollbwysig o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth genedlaethol Cymru.  Mae'n ffurfio ein hamgylchedd a'n tirweddau naturiol, mae'n rhoi ymdeimlad o le i ni yn y mynyddoedd, y dyffrynnoedd a'r arfordir ac mae'n gartref i fywyd gwyllt amrywiol Cymru. Mae'n darparu sail i ddatblygiad economaidd, gan gynnwys cyflenwadau ynni a thwristiaeth. Mae cael mynediad at ddŵr glân, a chyflenwadau cydnerth hefyd yn rhan hollbwysig o gynnal iechyd a lles pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chymru.

Rwyf eisiau sicrhau bod gan Gymru amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cynnal cymunedau iach, busnesau llewyrchus a bioamrywiaeth. Rwyf eisiau i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf, sy'n cynnig gwerth am arian a sicrhau bod pawb yn defnyddio ein dŵr mewn ffordd effeithlon a pharchus.

Mae'r Strategaeth hon yn datgan sut rydym ni'n credu y dylid rheoli ein hadnoddau dŵr er mwyn cefnogi cymunedau, natur a busnesau. Rydym wedi ymrwymo i ddull mwy integredig o reoli dŵr yn unol â'n polisi a'n hargymhellion Rheoli Adnoddau Naturiol ym Mil yr Amgylchedd (Cymru). Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y dull gorau ar waith i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn modd mwy rhagweithiol a chydgysylltiedig. Bydd hefyd yn ysgogi twf gwyrdd, yn sicrhau effeithlonrwydd o ran adnoddau, yn gwella cydnerthedd ac amrywiaeth ein hamgylchedd ac yn ein galluogi i drechu tlodi.

Rhaid i ni sicrhau y bydd y penderfyniadau a wnawn yn awr o fudd cyhoeddus parhaol i Gymru gyfan. Rhaid canolbwyntio ein buddsoddiad a'n hymdrech ar gyflawni canlyniadau lluosog. Drwy fabwysiadu dull 'rhywbeth am rywbeth' gallwn sicrhau'r budd hirdymor gorau o'r arian cyhoeddus a fuddsoddir. Gwnawn yn siŵr y bydd ein grantiau, ein trefniadau caffael a'n nawdd yn sicrhau buddiannau lluosog ac yn cynnig gwerth ac effeithlonrwydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein heconomi a'n cymdeithas drwy ddarpariaeth hwylus a chydgysylltiedig. Rhaid i'n ffyniant economaidd hirdymor fynd law yn llaw ag iechyd a chydnerthedd ein hadnoddau naturiol, heb eu tanseilio.

Rhaid i ni sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r pwerau priodol i gyflawni amcanion ein Strategaeth. Byddwn yn parhau felly i annog datganoli pob mater yn ymwneud â dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Fel y cadarnhaodd Comisiwn Silk, bydd hyn yn sicrhau bod buddiannau pobl Cymru yn cael eu gwasanaethu'n well yn y dyfodol.

Rydym yn wynebu heriau sylweddol o ran y modd y rheolwn ein hadnoddau naturiol yn y dyfodol. Mae angen i ni weithredu yn awr i sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau hyn mewn modd cynaliadwy. Ni allwn gyflawn ein hamcanion drwy ddeddfwriaeth a chanllawiau yn unig – byddwn yn cydweithio â phawb sydd â budd mewn dŵr, gan rannu arbenigedd a datblygu canlyniadau cyffredin y gallwn i gyd weithio tuag atynt.

**Carl Sargeant**



Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

OGL ISBN Digidol 978 1 4734 3650 3 25211
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Sut y bydd y Strategaeth Ddŵr yn cyflawni blaenoriaethau ac egwyddorion Llywodraeth Cymru | 7 |
| Yr Heriau – Pam y mae angen i ni newid | 15 |
| Themâu Allweddol | 21 |
| 4.1 – Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnesau | 23 |
| 4.2 – Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr | 33 |
| 4.3 – Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid | 37 |
| 4.4 – Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed | 43 |
| 4.5 – Systemau draenio a charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain ganrif | 47 |
| 4.6 – Cefnogi dulliau cyflawni | 53 |
| Atodiad A – Cynllun gweithredu | 61 |
| Atodiad B – Geirfa | 68 |
| Atodiad C – Map yn dangos ffiniau cwmnïau dŵr yng Nghymru | 82 |

# Cyflwyniad

Mae adnoddau naturiol Cymru ymhlith ein hasedau mwyaf gwerthfawr. Maent yn darparu gwasanaethau hanfodol – o aer, bwyd, dŵr a thir i ynni geothermol ac ynni'r gwynt, y llanw a'r haul. Maent yr un mor hanfodol i lwyddiant hirdymor ein heconomi ag y maent i ansawdd ein hamgylchedd naturiol a lles ein cymunedau.

Mae ein hadnoddau dan bwysau yn sgil heriau sy'n cynnwys tywydd eithafol, llygredd, newid yn yr hinsawdd a thwf poblogaeth. Gall y pwysau hwn osod mwy o bwysau ar ein hadnoddau naturiol a cholli cynefinoedd naturiol, tra bo cyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus ar yr un pryd.

Os yw pobl Cymru am barhau i fanteisio ar ein hadnoddau naturiol – ac osgoi rhoi'r buddiannau hynny yn y fantol i genedlaethau'r dyfodol – mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o alluogi Cymru i dyfu mewn modd cynaliadwy a chynyddu cydnerthedd yn seiliedig ar reolaeth effeithlon ar ein hadnoddau naturiol.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi ein cyfeiriad polisi hirdymor mewn perthynas â dŵr. Ein nod yw sicrhau bod gennym ddull mwy integredig a chynaliadwy o reoli ein dŵr a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r Strategaeth hon wedi cael ei datblygu yn y cyd-destun hwn a bydd yn cyfrannu at roi ein polisi rheoli adnoddau naturiol ehangach ar waith.

Bydd mabwysiadu dull mwy integredig o ran y modd y rheolwn ein hadnoddau dŵr yn helpu i hyrwyddo dull cydgysylltiedig o reoli dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein galluogi i sicrhau'r buddiannau economaidd a chymdeithasol gorau mewn ffordd deg, gan ddiogelu ecosystemau hollbwysig a'r amgylchedd.

Mae'n rhaid i ni sicrhau anghenion hirdymor amgylchedd cynaliadwy a chydnerth a sicrhau bod adnoddau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff digonol a dibynadwy ar gael yng Nghymru. Bydd yr ymagwedd hon hefyd yn ysgogi twf gwyrdd drwy ddarparu adnodd hanfodol ar gyfer busnesau, yn ogystal â darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd.

## Cwmpas y Strategaeth

Mae'r Strategaeth hon wedi ei gosod yng nghyd-destun ein cyfeiriad polisi hirdymor i wella ein dull o reoli ein hadnoddau naturiol ac mae'n cynnwys ystod eang o faterion sy'n gysylltiedig â rheoli ein systemau dŵr, gan gynnwys yr holl ddyfroedd mewndirol, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Yn benodol, byddwn yn canolbwyntio ar sut y gallwn wella cydnerthedd ein system ddŵr yn ei chyfanrwydd er mwyn gwneud y gorau o'r buddiannau y gall eu rhoi i ni a lleihau costau i ddefnyddwyr a busnesau, gan gynnwys cwmnïau dŵr.

Mae'r Strategaeth hon yn ategu ystod o bolisïau a rhaglenni ar draws Llywodraeth Cymru. Cyfeirir at nifer o'r polisïau hyn drwy'r ddogfen. Rydym wedi sicrhau bod ein hymagwedd yn gyson â safbwyntiau polisi presennol neu bolisïau sy'n cael eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Polisi Adnoddau Naturiol | Rhaglen Ddatblygu Strategaeth Amaethyddol |
| Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi | Cymru Effeithlon |
| Trechu Tlodi Tanwydd | Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod |
| Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin | Tuag at Ddyfodol Diwastraff |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 | Cynllun Adfer Natur |
| Twf Gwyrdd Cymru | Y Gronfa Natur |
| Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid | Cynefin |
| Y Gwasanaethau Talu am Ecosystemau | Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd |
| Blaenoriaethau Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd | Strategaeth Coetiroedd i Gymru |
| Strategaeth Arbed Ynni | Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 |
| Cynllun Morol | Cynhyrchu Ynni Gwasgaredig |
| Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol | Adolygiad Grantiau |
| Twf Swyddi Cymru | Strategaeth Tlodi Plant Cymru |
| Dull Cynaliadwy o Reoli Pridd | Iaith Fyw: Iaith Byw, Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-17. |

## Strwythur y Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn datgan sut y byddwn yn gweithio gydag eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dŵr.

Mae Adran 2 yn dangos sut y mae ein polisi ar gyfer dŵr yn cysylltu â pholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru, ac mae'n esbonio'r blaenoriaethau a'r egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio wrth gyflawni'r strategaeth.

Mae Adran 3 yn nodi'r heriau sy'n ein hwynebu o ran cyflawni dull cynaliadwy ac integredig o reoli dŵr.

Mae Adran 4 yn nodi ein 6 thema allweddol sy'n ffurfio penodau'r Strategaeth. Y rhain yw:

- Dŵr ar gyfer natur, pobl a busnesau.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr.
- Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid.
- Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed.
- Systemau draenio a charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain ganrif.
- Cefnogi dulliau cyflawni.

Ceir cynllun gweithredu yn Atodiad A sy'n nodi pryd yr ydym yn disgwyl cyflawni'r camau gweithredu a amlinellwyd drwy'r Strategaeth hon.

Ceir geirfa yn Atodiad B.

Ceir map yn dangos ffiniau cwmnïau dŵr yng Nghymru yn Atodiad C.


Gulf of
Mexico
Mexico

# 2. Sut y bydd y Strategaeth Ddŵr yn cyflawni Blaenoriaethau ac Egwyddorion Llywodraeth Cymru

## Rheoli ein Hadnoddau Naturiol mewn Ffordd Gynaliadwy

Ein nod yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau y maent yn eu darparu, a diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol wrth wneud hynny heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn rheoli ein hadnoddau dŵr yn effeithiol ac yn rhoi camau gweithredu priodol ar waith mewn modd amserol a fydd yn ein cynorthwyo i gyrraedd y nod hwn.

## Ein gweledigaeth

Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn parhau i feddu ar amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli mewn modd cynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau sy'n ffynnu a'r amgylchedd. Rydym am i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf sy'n darparu gwerth am arian ac sy'n sicrhau bod pawb yn defnyddio dŵr yn effeithlon, yn ddiogel a gyda pharch.

## Ein hegwyddorion allweddol

Mae'r Strategaeth hon yn nodi ein cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt. Wrth wraidd ein hymagwedd y mae ein hegwyddorion ar gyfer datblygu cynaliadwy, sy'n cefnogi'r holl bolisïau Llywodraeth Cymru a nodir isod. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'u nod yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau ledled Cymru, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol, mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei gyfyngiadau.

## Y tymor hir

Byddwn yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer buddiannau hirdymor Cymru. Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i effaith cynigion polisi, yn unigol a chronnus, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu buddsoddi ar gyfer y tymor hir, a chadw costau cyfredol biliau dŵr ar lefel realistig. Mae'n rhaid i'n cynigion polisi a'n buddsoddiadau arwain at fudd hirdymor i bobl Cymru, wrth sicrhau hefyd ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y buddiannau a'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o ddŵr. Ni ddylem oedi buddsoddiadau er mwyn gwneud arbedion yn y tymor byr ar draul talwyr biliau'r dyfodol.

## Atal

Byddwn yn wynebu nifer o heriau dros y blynyddoedd nesaf ac mae angen i ni fod yn rhagweithiol, yn hytrach nag yn ymatebol, wrth geisio canfod yr atebion gorau i'r heriau hyn. Mae'n well atal na gwella, a bydd mabwysiadu dull gweithredu o'r fath yn fwy

cost-effeithiol, ar gyfer arian cyhoeddus yn ogystal â'r economi ehangach, yn y tymor hir. Byddwn yn chwilio am atebion sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau yn hytrach na thrin symptomau methiant sylfaenol.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn seilio ein polisïau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau cywir i bobl Cymru. Pan fyddwn yn nodi angen am dystiolaeth ychwanegol, byddwn yn cydweithio'n agos gyda rheoleiddwyr, diwydiant, y byd academaidd a phartïon eraill sydd â diddordeb, i gomisiynu neu gynnal y gwaith ymchwil angenrheidiol. Os yw'n briodol, byddwn yn defnyddio "Gwyddoniaeth Dinasyddion", lle bydd unigolion yn casglu gwybodaeth am eu hamgylchedd lleol.

## Integreiddio

Yn hanesyddol, nid yw ein hadnoddau naturiol, gan gynnwys tir a dŵr, bob amser wedi cael eu rheoli mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i'r cysylltiadau rhwng canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, neu mewn ffordd sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnal ein hamgylchedd yn y tymor hir, er mwyn gwella ansawdd bywyd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Rydym wedi gwneud gwelliannau yn y ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau dŵr, sydd wedi eu hysgogi'n rhannol gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chyflawni safonau penodol. Fodd bynnag, rydym eisiau gwneud mwy na chyflawni'r safonau hyn yn unig. Byddwn yn adeiladu ar yr arfer presennol hwn er mwyn arfer dull mwy integredig o reoli adnoddau naturiol yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn golygu y bydd penderfyniadau sy'n effeithio ar yr holl adnoddau naturiol yn ceisio canfod y canlyniad cyffredinol gorau, gan ystyried ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a chydnabod cyd-ddibyniaeth ein hecosystemau ar ei gilydd a'u cydnerthedd creiddiol. Credwn y bydd yr ymagwedd ehangach hon at reoli ein hadnoddau yn sicrhau'r buddiannau gorau i bobl – o ran swyddi, eu bywoliaeth a'u hiechyd – yn ogystal â buddiannau i'r amgylchedd naturiol a bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau yn y tymor hir.

## Cydweithio

Ni allwn wireddu gweledigaeth y Strategaeth ar ein pennau ein hunain. Er mwyn cyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth hon byddwn yn cydweithio gyda'n partneriaid cyflenwi, gan gynnwys rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol ac awdurdodau priffyrdd. Bydd gweithredu'r dull ar sail ardal a nodir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi cyfle i'n partneriaid cyflenwi weithio gyda'i gilydd ar flaenoriaethau allweddol a chyflawni yn erbyn ein nodau llesiant.

Byddwn hefyd yn edrych ar gyfrifoldebau presennol gyda'r bwriad o symleiddio prosesau wrth symud ymlaen lle gallwn ddarparu buddiannau gwirioneddol i Gymru.


## Cyfranogiad

Bydd gweithredu llwyddiannus er mwyn gwella ein hamgylchedd dŵr yn galw am gronni arbenigedd ac agwedd gydweithredol ar gyfer cyflawni, a rhannu ein syniadau a'n

profiadau o sefydliadau amrywiol sy'n gysylltiedig â dŵr. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, bydd angen i nifer eang o randdeiliaid weithredu, yn cynnwys cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr, busnesau, y rhai sy'n berchen ar dir ac sy'n rheoli tir, cyrff cyhoeddus, grwpiau gwirfoddol, cymunedau lleol ac unigolion. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn galw am waith ar lefel leol, yn gysylltiedig â grwpiau megis Grwpiau Cyswllt Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl hollbwysig yn y dyfodol yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cyfrifoldeb ar y cyd, drwy weithredu'r dull ar sail ardal a gyflwynir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) yn amodol ar ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

## Ein Nodau Llesiant

Mae ein blaenoriaethau wedi eu seilio ar y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y rhain yn llywio'r ffordd y gweithiwn. Mae ein ffocws ar ddarparu'r buddiannau hirdymor mwyaf ar gyfer yr economi a thwf, ar gyfer y gymdeithas ac ar gyfer yr amgylchedd. Dyma'r nodau:




**Cymru lewyrchus - Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatâu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.**

Gan ddefnyddio'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem, byddwn yn gweithio i reoli ein hadnoddau dŵr mewn ffordd fwy integredig. Ein hamcan yw hyrwyddo proses gydgysylltiedig o ddatblygu a rheoli dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig er mwyn creu'r lles economaidd a chymdeithasol mwyaf mewn ffordd deg, a gwella cydnerthedd ein hecosystemau ar yr un pryd. Mae hyn yn adeiladu ar ein hagwedd gyffredinol at reoli ein hadnoddau naturiol.

Mae defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon yn hollbwysig os ydym am leihau allyriadau carbon, arbed arian a chadw biliau dŵr yn fforddiadwy. Mae cysylltiadau agos iawn rhwng rheoli ein hadnoddau dŵr a rheoli tir. Mae cysylltiadau pwysig hefyd rhwng y defnydd a wneir o ynni ac allyriadau carbon cysylltiedig, a'r cemegau sy'n cael eu defnyddio i drin dŵr.

Rydym yn awyddus i bobl Cymru gydnabod pa mor werthfawr yw dŵr i Gymru fel adnodd ac i'w bywydau bob dydd, i ymfalchïo yn ein hamgylchedd dŵr a gwneud y defnydd gorau posibl o'r dŵr hwnnw.

Rhaid i ni gydnabod bod cyflenwad dŵr dibynadwy yn hanfodol ar gyfer economi ffyniannus yng Nghymru. Byddwn yn sicrhau bod ein dŵr yn galluogi pobl i gael gwell bywoliaeth ac yn cefnogi ystod eang o sectorau busnes yng Nghymru, gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, prosesu bwyd, cynhyrchu bwyd a diod, oeri a chynhyrchu ynni, gweithgynhyrchu a thwristiaeth. Gallai adnoddau dŵr wedi eu rheoli'n dda gynnig cyfleoedd i ddenu busnesau sydd angen dŵr diogel o ansawdd uchel i fuddsoddi yng Nghymru, gan gefnogi ein hamcanion o ran twf gwyrdd a chreu swyddi.

Bydd hyn yn galw am gysylltiadau clir â meysydd polisi eraill, megis arbed ynni, newid hinsawdd, perygl llifogydd a rheoli tir.

Bydd hefyd yn cynnwys cyfranogiad y cyhoedd yn ehangach, a bydd yn galw am well dealltwriaeth ymhlith y gymdeithas gyfan o'r gwasanaethau y mae'r amgylchedd dŵr yn eu darparu.

**Cymru gydnerth – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).**

Mae ein hadnoddau naturiol yn darparu bwyd, dŵr ac aer ar ein cyfer, y deunyddiau crai a'r ynni ar gyfer ein diwydiannau ac yn cefnogi ein hiechyd a'n lles. Er mwyn i'r buddiannau hyn gael eu darparu yn y tymor hir, byddwn yn canolbwyntio ar adeiladu ecosystemau cydnerth. Mae hyn yn golygu bod angen ymagwedd ataliol; mynd i'r afael â'r problemau sylfaenol yn hytrach na thrin y symptomau, a gwella gallu hirdymor ein hecosystemau i ddarparu gwasanaethau ac addasu i bwysau a newidiadau.

Mae datblygu ecosystemau cydnerth yn un o brif amcanion Bil yr Amgylchedd (Cymru). Byddwn yn canolbwyntio ar yr ecosystem yn ei chyfanrwydd, yn hytrach nag ar elfennau unigol; yn cysylltu'r gwahanol faterion ac agweddau ar yr amgylchedd, gan gynnwys dŵr, yn hytrach na'u trin fel problemau ar wahân. Bydd gweithredu'r blaenoriaethau'n digwydd ar raddfa Cymru gyfan, ar raddfa tirwedd neu ar raddfa dinas-ranbarth fel y bo'n briodol.

Byddwn yn ceisio deall yr ystod lawn o wasanaethau a ddarperir gan ein hadnoddau a'n hecosystemau naturiol, buddiolwyr y gwasanaethau hyn a'u cyd-ddibyniaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn methu â sylwi ar fuddiannau neu gyfleoedd pwysig y tu allan i ffocws amlwg ac uniongyrchol ein gweithgaredd rheoli. Mae hefyd yn ein galluogi i nodi atebion newydd posibl i broblemau datblygu cynaliadwy sy'n ymddangos yn amhosibl i'w datrys ar hyn o bryd.

Bydd datblygu atebion yn gofyn am ffyrdd newydd, arloesol o weithio. Er enghraifft, mae 'Talu am Wasanaethau Ecosystemau' yn disgrifio amrywiaeth o gynlluniau cymhelliant arloesol sy'n seiliedig ar y farchnad i wobrwyo rheolwyr tir am gynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau megis rheoleiddio dŵr a rheoliadau hinsawdd.

**Cymru iachach – Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.**

Rydym yn sylweddoli bod amrywiaeth eang o fuddiannau, yn feddyliol ac yn gorfforol, i'w cael o annog mynediad at ddŵr. Byddwn yn sicrhau bod ein hadnoddau dŵr yn gwella mannau agored trefol ac yn darparu cyfleoedd diogel ar gyfer gweithgareddau hamdden, sy'n gwella llesiant ac yn helpu i rymuso pobl.

Byddwn yn sicrhau bod gennym systemau dŵr o ansawdd uchel sy'n cael eu rheoli'n dda yng Nghymru. Mae cyflenwadau dŵr yfed diogel a dibynadwy yn hollbwysig er mwyn sicrhau iechyd a lles y cyhoedd.

Byddwn yn sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad i ddŵr glân, llesol. Mae hyn yn cynnwys cyflenwadau dŵr cyhoeddus a phreifat. Byddwn yn hybu defnydd hamdden o'n dŵr mewn modd diogel a chynaliadwy.

**Cymru sy'n fwy cyfartal – Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).**

Gall effeithiau newid yn yr hinsawdd a ragwelir, megis tywydd eithafol amlach, roi rhagor o straen ar y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Byddwn yn gweithio i wella cydnerthedd cyffredinol Cymru i ddarparu mesurau diogelu rhag bygythiadau mawr i ddiogelwch bywyd a bywoliaeth – megis y rhai a achosir gan sychder, llifogydd neu ddigwyddiadau llygredd difrifol.

Byddwn yn sicrhau rheolaeth effeithiol ar y mathau hyn o risgiau. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ein heconomi ehangach ac yn osgoi'r gost a fyddai'n daladwy pe na bai camau ataliol yn cael eu rhoi ar waith. Hefyd, gall blaenoriaethu ymdrech ar gydnerthedd amlygu'r rôl hanfodol y mae adnoddau naturiol yn ei chwarae o ran trechu tlodi.

Byddwn yn sicrhau gwasanaethau dŵr teg a fforddiadwy i bawb ac rydym wedi ymrwymo i leihau canran y bobl sy'n cael trafferth i dalu am eu dŵr yng Nghymru, yn unol â'n nodau ehangach a nodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi a Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Byddwn yn sicrhau bod cwmnïau dŵr yn rhoi digon o wybodaeth i alluogi pobl i wneud dewisiadau gwybodus a chyfrifol am y ffordd y maent yn defnyddio eu dŵr, a allai helpu i leihau biliau.

**Cymru o gymunedau cydlynus – Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.**

Byddwn yn defnyddio'r dull ar sail ardal a nodir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) i ddeall ystod o gyfleoedd ar draws y cymunedau yng Nghymru. Bydd yr ymagwedd hon yn hybu buddsoddi strategol mewn seilwaith dŵr, carthffosiaeth a draenio cynaliadwy sy'n gwella amgylcheddau lleol.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.**

Mae dŵr yn greiddiol i'n datblygiad fel cymdeithas. Rydym am i ddeiliaid tai a busnesau werthfawrogi ac uniaethu â dŵr yng Nghymru a bod yn gyfrifol am gynorthwyo'r broses o reoli ein cyfalaf naturiol. Rydym am i bawb gael gwell dealltwriaeth o'u defnydd o ddŵr, i wybod am werth ehangach ein dŵr ac i feithrin arferion dŵr effeithlon yn eu cartrefi a'u busnesau o ddydd i ddydd.

Rydym wedi ymrwymo i gael amgylchedd dŵr o safon sy'n galluogi pobl Cymru ac ymwelwyr i fwynhau a hyrwyddo amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden dŵr cyfrifol yn ein dyfroedd mewndirol ac arfordirol hardd a niferus.

Rydym yn disgwyl i'r sector dŵr ac eraill warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy addysg a gwasanaethau fel y nodir yn 'Iaith Fyw: Iaith Byw, Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-17', a byddwn yn mynd ati i annog hynny. Byddwn yn sicrhau safonau gwasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg a fydd yn rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gwaith, wrth dderbyn gwasanaethau ac wrth fwynhau adloniant a gweithgareddau hamdden.

Wrth i ni weithredu'r Strategaeth hon, byddwn yn meithrin hunaniaeth Gymreig sy'n unigryw, ond yn cynnwys gwahanol ddiwylliannau, gan edrych tuag allan, ac yn helpu Cymru i ymsefydlu'n llwyddiannus mewn byd sy'n esblygu'n gyson gyda phersbectif cynyddol fyd-eang.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.**

Mae angen i ni roi mwy o werth ar ddŵr, deall amrywiadau gofodol adnoddau dŵr ledled Cymru a'i ddefnyddio'n ddoeth i leihau effaith ein hôl troed dŵr[1], yn enwedig ar rannau o'r byd lle mae dŵr yn brin. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni ddeall effeithiau ein defnydd uniongyrchol o ddŵr o afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr yng Nghymru a deall y defnydd anuniongyrchol o ddŵr yn y bwyd rydym yn ei fwyta, y dillad rydym yn eu gwisgo a'r diodydd rydym yn eu hyfed.

Mae argaeledd gwasanaethau dŵr cadarn a chryf yn hanfodol i gefnogi busnesau. Mae cwmnïau yng Nghymru sydd eisoes yn dibynnu ar ddŵr i gefnogi popeth o gynhyrchu papur a dur i brosesu bwyd a bragu – mae rheolaeth effeithiol ar ddŵr yn hanfodol ar gyfer miloedd o swyddi yn y sectorau hyn. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o ddefnyddwyr diwydiannol wedi lleihau eu defnydd o ddŵr drwy wella effeithlonrwydd ac ailgylchu er mwyn lleihau costau gweithredu. Mae argaeledd cyflenwadau dŵr o ansawdd uchel o afonydd a dŵr daear, a thrwy gwmnïau dŵr, yn cynnig cyfleoedd pwysig i ddenu busnesau i Gymru. Drwy sicrhau bod ein hadnoddau dŵr yn cael eu rheoli'n dda, gallwn gefnogi twf gwyrdd a chreu a diogelu swyddi.

[1] Mae ôl troed dŵr yn ddangosydd defnydd dŵr croyw sy'n edrych nid yn unig ar ddefnydd dŵr uniongyrchol defnyddiwr neu gynhyrchydd, ond hefyd ar y defnydd dŵr anuniongyrchol.

Nid yw cynnydd parhaus yn y ddibyniaeth ar nwyddau sy'n galw am ddefnyddio llawer o ddŵr mewn gwledydd neu ardaloedd o'r economi fyd-eang lle mae prinder dŵr yn endemig yn batrwm masnachu cynaliadwy. Mae gennym i gyd rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau bod pawb yn deall pwysigrwydd rheoli dŵr yn briodol, a sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'i werth a bod yr adnodd yn cael ei ddiogelu.

Byddwn yn cynnal ymchwil i nodi a deall gwerth economaidd ein dŵr yn y dyfodol, a'r manteision a'r cyfleoedd y gall eu darparu yn genedlaethol ac yn fyd-eang.


© Hawlfraint y Goron (2015) Croeso Cymru



© Hawlfraint y Goron (2015) Croeso Cymru

# 3. Yr heriau – pam y mae angen i ni newid

Mae ein hadnoddau naturiol yn rhoi ystod o wasanaethau a buddiannau i ni sy'n cefnogi ein hiechyd a'n lles. Yn y Strategaeth hon, rydym yn nodi'r heriau allweddol a'r camau gweithredu y byddwn yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol yng Nghymru.

Mae gan Gymru hinsawdd arforol wedi'i nodweddu gan dywydd sy'n aml yn gymylog, yn wlyb ac yn wyntog, ond yn fwyn. Mae hyn yn creu'r argraff fod gennym ddigonedd o ddŵr i gynnal ein hamgylchedd, ein pobl a'n heconomi. Mae'r darlun yn fwy cymhleth yn ymarferol.

Mae topograffi a daeareg Cymru yn golygu y gall fod yn anodd harneisio'r adnodd naturiol hwn – ni allwn ddibynnu ar gyflenwadau dŵr daear sylweddol, ac felly mae'n rhaid i ni geisio casglu a storio llawer o'n dŵr mewn cronfeydd dŵr. Nodwedd o'n datblygiad diwydiannol hefyd oedd y diwydiannau niferus a ddibynnai'n helaeth ar ddŵr.

Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau y gellir diwallu anghenion hirdymor yr amgylchedd, y bobl a'r economi. Mae ein dŵr yn bodoli mewn system ddynamig o wlyptiroedd, afonydd, dyfrhaenau, llynnoedd, aberoedd a'r arfordir. Mae'n ddibynnol ar ein patrymau tywydd, ac yn cael ei ddylanwadu'n helaeth ganddynt. Mae'n ein cyrraedd ni, y defnyddwyr, drwy system gymhleth ar gyfer casglu, storio, trin a chyflenwi, sy'n gostus i'w hadeiladu a'i gweithredu.

Yng Nghymru, rydym yn wynebu nifer o heriau yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth, rhwydweithiau'n heneiddio a chynnydd yn y galw am ddŵr, a bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y byddwn yn rheoli ein hadnoddau naturiol.

Wrth symud ymlaen, rydym yn debygol o gael safonau amgylcheddol llymach wedi'u hysgogi gan dystiolaeth wyddonol a gofynion trin dŵr i fynd i'r afael â halogion/cemegolion (e.e. ymyrwyr endocrin ac ewtroffigedd) sy'n dod i'r amlwg. Efallai y bydd angen mwy o fuddsoddiad yn asedau cwmnïau dŵr i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r holl bethau hyn â goblygiadau o ran ein hamgylchedd dŵr, y diwydiant dŵr a'i reoleiddwyr, rheolwyr tir, yn ogystal â'r boblogaeth ehangach dros yr ugain mlynedd nesaf a thu hwnt.

## Effeithiau newid yn yr hinsawdd

Rydym yn deall bod ein hinsawdd yn newid. Er bod y tueddiadau cyffredinol yn gymharol glir, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cyfradd y newid a pha mor gyflym y mae hyn yn effeithio arnom ni fel unigolion a chynllunwyr adnoddau dŵr. Mae hyn â goblygiadau penodol o ran rheoli ein dŵr, o gofio y bydd rhai opsiynau (er enghraifft, adeiladu cronfeydd dŵr) yn cymryd amser hir i'w cwblhau a bod galw am rywfaint o sicrwydd cyn gwneud penderfyniadau. Yn y tymor byr i'r tymor canolig, felly, dylem ganolbwyntio ar fesurau addasol, cynyddrannol, cymharol isel eu cost sy'n creu buddiannau eraill, megis lleihau'r galw am ddŵr neu wella'r amgylchedd.

Mae'r ddealltwriaeth orau sydd ar gael i'w gweld yn Rhagolygon Hinsawdd y DU 2009 (UKCP09)[2]. Mae'r rhain yn awgrymu y bydd lefelau tymheredd yng Nghymru yn codi ac y bydd patrymau glawiad tymhorol yn newid, gan gynyddu yn y gaeaf a gostwng yn yr haf. Rhagwelir y ceir digwyddiadau tywydd garw mwy mynych a mwy eithafol.

Gallai'r canlyniadau fod yn arwyddocaol i adnoddau dŵr. Mae Adroddiad Cymru ar Asesiad y DU o Risgiau Newid Hinsawdd[3] yn nodi bod tywydd cynhesach yn debygol o arwain at gynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr a mwy o anweddiad o'n cronfeydd dŵr niferus. Bydd glawiadau dwysach yn achosi mwy o lifogydd dŵr wyneb ac yn golchi mwy o lygrwyr i'n nentydd, ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol. Bydd hefyd yn lleihau'r dŵr sy'n ail-lenwi ein hadnoddau dŵr tanddaearol yn yr ardaloedd hynny yng Nghymru lle maent yn bwysig. Er bod ansicrwydd ynglŷn â lefelau glawiadau yn y dyfodol, rydym yn debygol o weld llifoedd is yn ystod yr haf a lefelau tymheredd uwch yn yr afonydd.

Hefyd, mae amodau sychder yn fwy tebygol o ddigwydd. Mae astudiaeth gan y Swyddfa Dywydd[4] yn awgrymu y bydd nifer y cyfnodau o sychder wedi cynyddu ddeg gwaith erbyn 2100. Gallai digwyddiadau megis sychder 1975-76 ddigwydd bob 10 mlynedd ar gyfartaledd. Mae ein dibyniaeth ar adnoddau dŵr wyneb yma yng Nghymru yn golygu bod angen i ni sicrhau y bydd ein seilwaith dŵr yn ddigonol ar gyfer yr amodau a ragwelir.

Bydd cost darparu gwasanaethau carthffosiaeth a thrin carthion yng Nghymru yn cael ei heffeithio gan y newidiadau hyn. Efallai y bydd cynnydd yn amlder arllwysiadau o orlifiadau carthffosydd cyfunol, llifogydd carthion, a charthffosydd yn cael eu cloi gan y llanw (er enghraifft, lefelau uchel o ddŵr llanw yn cau gollyngfeydd draenio). Bydd angen i ni ganolbwyntio llawer mwy felly ar sut y mae dŵr yn mynd i mewn i'r system garthffosiaeth – gan roi sylw arbennig i arferion cynllunio trefol a rheoli tir gwledig sy'n sensitif i ddŵr.

Mae'r newidiadau hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr. Bydd cynnydd mewn llygredd, llifoedd llai a thymheredd uwch yn effeithio ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar afonydd a llynnoedd. Er enghraifft, byddai hyn yn effeithio ar rywogaethau pysgod mudol sensitif megis eog, sewin a gwangod. Yn ogystal, os yw ansawdd y dŵr yn dirywio bydd cwmnïau dŵr yn wynebu costau ychwanegol i drin y dŵr i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

Yn ogystal ag adeiladu'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, mae angen i ni leihau ein hallyriadau hefyd. Heb liniaru ychwanegol, daeth Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd[5] i'r casgliad fod disgwyl i gynhesu byd-eang gynyddu mwy na 4°C erbyn diwedd yr 21ain ganrif, gan arwain at risg uchel o effeithiau difrifol ac eang na fydd modd eu dadwneud. Bydd hyn yn cynyddu risgiau presennol ac yn creu rhai newydd i systemau naturiol a dynol. Bydd y risgiau hyn yn anwastad o ran eu dosbarthiad ac yn waeth yn gyffredinol i bobl a chymunedau difreintiedig.

[2] http://ukclimateprojections.defra.gov.uk

[3] Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru – Ionawr 2012: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/riskassess/?skip=1&lang=cy

[4] 'An extreme value analysis of UK drought and projections of change in the future' – Y Swyddfa Dywydd, 2010. Journal of Hydrology

[5] IPCC Synthesis Report 2014

Mae targedau Ewropeaidd a Llywodraeth y DU yn nodi'r cyd-destun ar gyfer datgarboneiddio ein heconomi. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi nodi map clir ar gyfer datgarboneiddio, gyda thargedau interim allweddol ar gyfer 2020 a 2030 i arwain cynllunio tuag at y nod o ostwng allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050 (o dan lefelau 1990).

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i nodi llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer targedau statudol a amlinellir ym Mil yr Amgylchedd (Cymru). Fel Llywodraeth, rydym yn bwriadu symud at gyllidebu carbon, a fydd yn helpu i arwain y gwaith o gyflawni a blaenoriaethu gwaith. Wrth wneud hynny, ein nod yw gosod llwybr clir yng nghyd-destun ein rhwymedigaethau presennol yn y DU a'r UE.



## Ein capasiti cynhyrchiol

Mae risg uwch o sychder yn rhoi pwysau ar gyflenwadau dŵr yfed preifat a chyhoeddus. Fodd bynnag, mae hefyd yn lleihau argaeledd dŵr yn yr haf ar gyfer da byw a dyfrhau cnydau. Mae amaethyddiaeth ar hyn o bryd yn cyfrannu 11% o gyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru, yn bennaf ar ffurf methan ac ocsid nitraidd. Yr heriau allweddol i gapasiti cynhyrchiol ein pridd yw colli ansawdd, cywasgu, halogi, selio pridd ac erydu.

Bioamrywiaeth pridd sy'n sail i weithrediad y pridd i'w alluogi i gynhyrchu bwyd, ffibr a phren yn gynaliadwy. Mae erydiad pridd yn effeithio ar gynhyrchiant priddoedd, drwy golli'r ased naturiol yn uniongyrchol, ac mae'r gwaddodi yn ei sgil yn effeithio'n negyddol ar ansawdd y dŵr ac iechyd ecosystemau dyfrol.

Mae cywasgu pridd yn effeithio ar gynhyrchiant amaethyddol priddoedd ac yn lleihau capasiti ymdreiddiad dŵr, gan gynyddu llif trostir a chreu perygl o lifogydd. Mae cywasgu hefyd yn cynyddu llif trostir deunyddiau fferm megis tail, gan gynyddu'r risg o lygredd dŵr.

Selio pridd, sy'n digwydd pan fo pridd yn cael ei selio gan goncrid, adeiladau neu darmac, yw'r math mwyaf arwyddocaol o newid defnydd tir a'r mwyaf niweidiol o bell ffordd o ran colli gweithrediad pridd yn llwyr yn ogystal â darpariaeth gysylltiedig o wasanaethau ecosystemau. Y canlyniad yw colli gweithrediad pridd yn gyfan gwbl a cholli pob un ond un gwasanaeth ecosystem, sef bod yn llwyfan ar gyfer datblygu.

Mae gan Gymru hanes sylweddol o halogi tir, a achoswyd yn bennaf gan weithgarwch diwydiannol hanesyddol. Gall llygredd i afonydd, dŵr daear a phyllau dŵr ddigwydd o ganlyniad i drwytholchiad halogyddion o'r pridd i mewn i gyrsiau dŵr drwy ddraenio naturiol y pridd neu drwy ddŵr wyneb ffo. Mae newid yn yr hinsawdd, ynghyd â darnio a newid cynefinoedd a gweithgareddau eraill gan bobl yn arwain at ddirywiad i iechyd a phoblogaethau pryfed peillio a chynnydd yn y perygl o blâu a chlefydau egsotig yn cyrraedd Cymru. Mae nifer sylweddol yr achosion presennol yn dangos y risgiau i'n planhigion a'n anifeiliaid o blâu a chlefydau, er enghraifft Phyophthtora ramorum a chimwch afon America.

## Twf yn y boblogaeth

Mae cynnydd o 5.5% wedi bod ym mhoblogaeth Cymru ers 2001, i 3.06 miliwn yn 2011[6]. Mae'r tueddiad hwn yn debygol o barhau, gyda'r rhagolwg y bydd y boblogaeth yn cynyddu 3% i 3.17 miliwn erbyn 2020 ac 8% i 3.3 miliwn erbyn 2035[7]. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n raddol, ac y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu tua 22% rhwng 2010 a 2023. Bydd y twf hwn yn y boblogaeth yn cynyddu'r galw am fwyd, dŵr a gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r cydbwysedd yn y galw am y gwahanol wasanaethau hynny. Gwelwyd cynnydd o tua 1.1 miliwn yn yr amcangyfrif

[6] Cyfrifiad 2011 – http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/index.html

[7] Amcanestyniadau poblogaeth a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol - http://www.ons.gov.uk/ons/taxonomy/index.html?nscl=Population+Projections

[8] Amcangyfrifon aelwydydd, 1991-2009 SDR 23/2011 - http://gov.wales/statistics-and-research/?skip=1&lang=cy

o nifer y cartrefi yng Nghymru ym 1991 i bron i 1.3 miliwn erbyn 2009. Fel cyfran, cynyddodd nifer yr aelwydydd un person o 25% o'r holl aelwydydd ym 1991 i 31% yn 2009[8]. Mae'r tueddiad hwn yn debygol o barhau, gan roi pwysau cynyddol ar dir ar gyfer tai, cynhyrchiant bwyd, y galw am ddŵr a chyflenwadau ynni.

Bydd datblygiad a thwf y boblogaeth yn y dyfodol hefyd yn rhoi pwysau ar systemau carthffosiaeth, a gallai rhwydweithiau sydd eisoes yn heneiddio effeithio ar ddatblygu yn y dyfodol ac arwain at orlwytho systemau a mwy o orlifo, gan effeithio ar ansawdd yr amgylchedd.

Bydd tueddiadau tebyg yn y boblogaeth yn Lloegr yn cynyddu'r ddibyniaeth yno ar gyflenwadau diogel o ddŵr o Gymru.

## Newid yn y galw

Er bod gostyngiad mawr wedi bod yn anghenion dŵr diwydiannau yng Nghymru, mae cynnydd wedi bod yn y defnydd domestig. Mae aelwydydd bellach yn defnyddio tua 52%[9] o'r dŵr sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyflenwad cyhoeddus. Mae'r person cyffredin yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio 150 litr[10] o ddŵr y dydd (tua dau lond bath). Mae'r rhan fwyaf o'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn y cartref yn cael ei ddefnyddio i ymolchi a fflysio'r toiled, ond mae hefyd yn cynnwys yfed, coginio, golchi'r car a dyfrio'r ardd. Bydd y newidiadau yn y galw yn cael effaith ar adnoddau dŵr a chapasiti carthffosiaeth a thrin carthion.

[9] Asiantaeth yr Amgylchedd – Save Water – http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/beinggreen/117266.aspx

[10] Asiantaeth yr Amgylchedd – Save Water – http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/beinggreen/117266.aspx


RIVERSIDE
SHOPPING

# 4. Themâu Allweddol

Mae ein polisi ar gyfer datblygu dull mwy integredig o reoli ein hadnoddau dŵr yn adlewyrchu ein dull ehangach o Reoli Adnoddau Naturiol. Mae'n cynnwys hyrwyddo dull cydgysylltiedig o ddatblygu a rheoli dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig er mwyn ein galluogi i sicrhau'r buddiannau economaidd a chymdeithasol gorau mewn ffordd deg, gan gynyddu cydnerthedd ecosystemau hollbwysig ar yr un pryd.

Yn y bennod hon nodir ein polisïau ar ffurf 6 thema allweddol:

- Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau - Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd ansawdd a maint ein hadnoddau dŵr yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, gan ddiwallu anghenion cymdeithas a chynnig cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd ond hefyd ar gyfer diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol
- Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio a rheoli ein gwasanaethau dŵr - Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau dŵr yn parhau'n gadarn, yn gynaliadwy ac yn cynnal gwasanaethau o ansawdd uchel yn awr ac yn y dyfodol.
- Darparu gwasanaethau gwych i gwsmeriaid - Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod gan bobl a busnesau yng Nghymru fynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy sy'n gynaliadwy, yn ddiogel ac yn ddibynadwy.
- Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed - Mae'r adran hon yn nodi ein dull o gynnal safon uchel bresennol ein dŵr yfed cyhoeddus, yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed ac yn sicrhau bod unrhyw broblemau ansawdd yn cael eu datrys yn effeithiol.
- Systemau draenio a charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain ganrif - Mae'r adran hon yn nodi ein dull o sicrhau bod dŵr gwastraff a dŵr wyneb yn cael eu rheoli mewn ffordd integredig.
- Cefnogi dulliau cyflawni - Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn cefnogi'r broses o gyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau allweddol.
- Mae pob thema yn cynnwys amryw o gamau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a nodir ym Mhennod 3 y Strategaeth hon, ac yn ein cynorthwyo i gyflawni ein nodau llesiant ac egwyddorion datblygu cynaliadwy.

[11] Papur Gwyn Bil yr Amglychedd (Cymru) - http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy



© Hawlfraint y Goron (2015) Croeso Cymru

# 4.1 Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau

## Prif Faterion

### Rheoli adnoddau dŵr ac adnoddau naturiol

Mae dŵr yn adnodd hollbwysig sy'n cefnogi ystod eang o ecosystemau naturiol yng Nghymru. Mae ein hadnoddau naturiol dan bwysau cyson gan heriau megis tywydd eithafol, newid yn yr hinsawdd, colli cynefinoedd naturiol a newidiadau mewn arferion rheoli tir. Ar yr un pryd, mae cyllid cyhoeddus yn wynebu cyfyngiadau.

Rydym am sicrhau bod pobl Cymru a chenedlaethau'r dyfodol yn parhau i elwa ar ein hadnoddau naturiol. Mae'n rhaid i ni esblygu a herio'n hunain yn gyson i ddod o hyd i ffyrdd newydd i Gymru dyfu mewn modd cynaliadwy, i gynyddu cydnerthedd ac i reoli ein hadnoddau naturiol yn effeithlon.

Rydym yn mabwysiadu dull newydd o reoli ein hadnoddau naturiol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r budd mwyaf yn y tymor hir er lles Cymru'r presennol a'r dyfodol. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn datblygu polisi trosfwaol a fframwaith deddfwriaethol er mwyn sicrhau dull llawer mwy integredig, gan sicrhau bod gennym ddeddfwriaeth sy'n diwallu anghenion Cymru a'n bod yn cefnogi gweithgaredd sy'n hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yn ymarferol.

Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn amlinellu ymagwedd statudol fodern i ganiatáu i ni gynllunio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac mewn ffordd gydgysylltiedig. Bydd yn nodi dull o roi blaenoriaeth i gyfleoedd adnoddau naturiol ac i sicrhau bod gennym y dystiolaeth sydd ei hangen i lywio ffurf a chyfeiriad twf economaidd a datblygiad cynaliadwy yn well. Bydd hyn yn sicrhau bod gan Gymru economi ffyniannus ochr yn ochr ag amgylchedd iach a chydnerth.

Bydd y Bil yn cynnwys cynigion a fydd yn cydnabod gwerth ein hecosystemau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn well, er mwyn helpu i gyflawni'r broses o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – bydd gwneud hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys dyletswydd arfaethedig ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Bydd hwn yn llywio ein blaenoriaethau mewn perthynas â rheoli ein hadnoddau naturiol. Cynhyrchir Datganiadau Ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'u defnyddio i nodi'r cysylltiadau lleol (neu safle-benodol) â'r blaenoriaethau strategol ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar lefel ardal. Bydd hyn yn caniatáu ymagwedd fwy cydlynol a seiliedig ar le wrth wneud penderfyniadau ar fuddiannau hirdymor ein hadnoddau naturiol.

Mae dŵr yn ganolog i'n dull integredig o reoli adnoddau naturiol. Er ein bod wedi tueddu, yn hanesyddol, i edrych ar faterion rheoli dŵr ar eu pennau eu hunain, o bosibl, mae ein gwaith ar weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi pwysleisio manteision dull integredig o reoli dalgylchoedd afonydd.

Bydd y dull o reoli adnoddau naturiol yn ein galluogi i wireddu'r gwasanaethau ecosystemau, a'r buddiannau niferus y mae adnodd dŵr glân a digonol yn ei ddarparu, yn llawn. Yn ddi-os, bydd yr amgylchedd dŵr ei hun yn elwa o ganlyniad i hynny.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd doethach o reoli ein cronfeydd dŵr yng Nghymru a dulliau arloesol o weithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd. Drwy gymryd golwg fwy cyfannol, defnyddio'r dull dalgylch a gwella ein hymgysylltiad â chymunedau, byddwn yn gallu ystyried amgylchiadau a blaenoriaethau lleol yn well.

## Gwella ymgysylltiad dinesig

Mae ymgysylltiad a chyfranogiad dinesig effeithiol yn ganolog i'n dull o reoli dŵr a rheoli adnoddau naturiol yn ehangach. Gellir gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio'n well ar faterion rheoli dŵr gyda chyfranogiad grwpiau cymunedol lleol, busnesau lleol ac unigolion. Bydd ymagwedd gyfranogol sy'n cynnwys cymunedau lleol yn helpu i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb mewn dŵr yn rhan o'r broses o bennu agendâu a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn annog cyfranogiad cymunedau a gwneir hyn yng Nghymru drwy'r Paneli Cyswllt Rheoli Basn Afon. Fodd bynnag, gall eu maint olygu ei bod yn anodd mynd i'r afael â materion lleol penodol. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am sicrhau bod ein hamgylchedd dŵr yn cael ei reoli'n effeithiol, annog cyfranogiad cymunedol gwell ar raddfa briodol gan ddefnyddio'r dulliau niferus a'r systemau cymorth sydd ar gael.

Rydym am annog ymagwedd hyblyg tuag at yr ymgysylltiad hwn, yn hytrach nag "un ateb sy'n addas i bawb", gan ein bod yn cydnabod nad gweithio ar sail dalgylch fydd y ffordd orau o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir mewn rhai ardaloedd. Efallai y bydd gweithio ar raddfeydd gwahanol yn ein helpu i ddeall y cyd-destun lleol, megis cyfleoedd economaidd neu risgiau newid yn yr hinsawdd, sy'n amrywio ar draws Cymru. Bydd hyn yn helpu i lywio ein dulliau o reoli dŵr yn ogystal â rheoli adnoddau naturiol yn ehangach a sicrhau bod camau gweithredu rheoli dŵr a thir ar lefel dalgylchoedd wedi eu hintegreiddio â'n dull ar sail ardal arfaethedig o fynd ati i gynllunio adnoddau naturiol.

## Gwneud y defnydd gorau o'n Dŵr

Mae dŵr yn darparu ystod eang iawn o fuddiannau i'n cymdeithas, gan gynnwys swyddi, cyfleoedd hamdden, cynhyrchu ynni, cynhyrchu bwyd a'n hiechyd. Fodd bynnag, mae'n anodd rhoi gwerth ar nifer o'r buddiannau hyn.

### Adnoddau dŵr sy'n cael eu rheoli'n dda

Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli adnoddau dŵr, gan gynnwys rheoliadau tynnu dŵr. Tynnu dŵr yw'r broses o symud dŵr o adnoddau naturiol gan gynnwys afonydd, llynnoedd a dyfrhaenau a dyma sut yr ydym yn diwallu'r rhan fwyaf o'n hanghenion cyflenwi dŵr yng Nghymru. Os ydym yn hepgor dŵr sy'n cael ei

ddefnyddio yn y sector ynni (ynni dŵr), sy'n cael ei ddychwelyd yn syth i'r amgylchedd, mae mwyafrif helaeth y dŵr a dynnir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyflenwad dŵr cyhoeddus, gyda thynnu dŵr at ddibenion diwydiannol yn elfen sylweddol hefyd. Mae'n cael ei reoleiddio drwy system o drwyddedau a gyhoeddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Sefydlwyd trefn drwyddedu ar gyfer tynnu dŵr ym 1963 er mwyn diogelu rhai sy'n tynnu dŵr i lawr yr afon, ond nid yw'n cynnig digon o hyblygrwydd i oresgyn heriau argaeledd dŵr yn y dyfodol, na'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol[12].

Er mwyn sicrhau bod gennym adnoddau dŵr cadarn a chydnerth rydym wedi ymrwymo i ddiwygio'r system trwyddedau tynnu dŵr yng Nghymru.

Mae'r system trwyddedau tynnu dŵr hefyd yn cynnwys nifer o eithriadau hanesyddol sy'n caniatáu tynnu dŵr heb gyfyngiad at ddibenion penodol, megis mordwyo a gwagio chwareli. Er mwyn gallu rheoli adnoddau dŵr yn deg a chynhwysfawr, byddwn yn cynnwys y mathau hyn o dynnu dŵr yn y system drwyddedu.

## Diogelu ansawdd dŵr yng Nghymru

Mae'r ffordd yr ydym yn rheoli dŵr yng Nghymru wedi esblygu'n sylweddol dros amser. Yn hanesyddol, rydym wedi manteisio ar yr amgylchedd dŵr i wasanaethu anghenion cymdeithas, yn aml heb fawr o ystyriaeth i'r amgylchedd naturiol. Yn fwy diweddar, rydym wedi darparu cymhellion yn aml ar gyfer arferion rheoli tir heb ddeall y goblygiadau i'r amgylchedd ehangach.

Rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd ein dŵr mewn afonydd, dyfroedd ymdrochi a chyrff dŵr eraill ledled Cymru.

Mae llawer o'n gwaith yn rheoli a gwarchod ein hafonydd, ein llynnoedd, ein dyfroedd arfordirol a chyrff dŵr eraill yn cael ei reoli gan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd[13]. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn canolbwyntio ar sefydlu dull integredig o ddiogelu'r amgylchedd dŵr a defnydd cynaliadwy ohono. Geilw hyn am ymagwedd gyfannol at reoli dyfroedd, gan edrych ar y dŵr o fewn yr ecosystem ehangach a chan ystyried symudiad dŵr drwy'r gylchred hydrolegol.

Mae'n rhaid i'r aelod-wladwriaethau sicrhau bod rhaglen o fesurau ar waith ar gyfer pob crynofa ddŵr a fydd yn amlinellu sut y byddant yn cyflawni statws ecolegol da 100%.


Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i roi sylw i flaenoriaethau amgylcheddol, ystyriaethau economaidd a materion cymdeithasol eraill wrth nodi amcanion rheoli dŵr. Mae manteision gweithio ar y cyd yn amlwg o'n gwaith ar gydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r gwaith hwn wedi dod â nifer eang o randdeiliaid ynghyd i ddiogelu a gwella ecosystemau sy'n seiliedig ar ddŵr a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, yn ogystal â chefnogi anghenion cymdeithas. Mae hyn yn unol â'n dull Rheoli Adnoddau Naturiol ac yn ein galluogi i wireddu'r buddiannau a geir o reoli dŵr yn llawn.

Mae'r rhesymau mwyaf arwyddocaol sy'n atal ein nentydd, ein hafonydd a'n haberoedd rhag cyflawni statws ecolegol da wedi eu hamlinellu yn y siart bar isod.

[12] Asiantaeth yr Amgylchedd – Current and Future Water Resources - http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/40731.aspx

[13] Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/

## Rhesymau dros beidio â sicrhau 'da', crynofeydd dŵr Cylch 1




### Mynd i'r afael â llygredd

Byddwn yn cymryd camau i atal a rheoli llygredd dŵr, sy'n hanfodol er mwyn diogelu ansawdd ein dŵr.

Mae ein system gyfredol ar gyfer rheoli llygredd yn y tarddle o systemau trin carthion a gweithgareddau diwydiannol, sy'n cael ei gweithredu gan Cyfoeth Naturiol Cymru drwy system o drwyddedau a monitro, yn sicrhau bod ein hamgylchedd dŵr wedi'i warchod yn dda rhag y tarddleoedd hyn. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal y safonau uchel hyn ac adolygu eu heffeithiolrwydd yn barhaus. Fodd bynnag, mae'n dal o dan fygythiad llygredd gwasgaredig. Mae llygredd gwasgaredig yn digwydd o ganlyniad i nifer o weithgareddau sy'n arwain at darddleoedd llygredd bychain a allai fod yn anodd eu nodi a'u rheoli. Maent yn digwydd ym mhob sector, a gallant ddeillio hefyd o'n gweithgareddau fel unigolion.

I fynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig, byddwn yn sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig o reoli tir a dŵr. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r sector adeiladu, coedwigaeth ac amaethyddiaeth i ddeall, adolygu, a lle bo'n briodol, i newid arferion a dulliau rheoleiddio presennol.

Byddwn yn ystyried i ba raddau y mae dull tebyg i'r hyn a weithredwyd yn yr Alban yn briodol ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r materion yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio rheolau rhwymo cyffredinol i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer llygredd gwasgaredig a fydd yn helpu i arwain a llywio blaenoriaethau lleol fel rhan o ddull Cynllun Rheoli Basn Afon[14]. Mae'r cynllun yn amlygu wyth maes sy'n peri pryder ac mae'n disgrifio'r camau gweithredu y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith i weithio gyda'r rhai sy'n achosi'r problemau er mwyn lleihau llygredd dŵr gwasgaredig.

## Wyth maes blaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi wyth maes blaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig yn eu cynllun Llygredd Gwasgaredig i Gymru. Y rhain yw:

- ystadau diwydiannol,
- gollyngiadau carthion bach sy'n gwasanaethu eiddo preifat, gan gynnwys tanciau carthion,
- camgysylltiad draenio,
- draenio dŵr wyneb o ardaloedd datblygedig,
- rheoli da byw,
- rheoli tir,
- storio – slyri, tanwydd, olew, cemegau,
- dŵr cloddfeydd.

Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro nitradau mewn dŵr a dynodi tir fel Parth Perygl Nitradau lle bo angen, er mwyn darparu diogelwch priodol. Mae llai na 3% o dir Cymru wedi ei ddynodi'n Barth Perygl Nitradau. Mae hyn oherwydd daearyddiaeth Cymru, arferion ffermio a'r camau rydym yn eu defnyddio i fynd i'r afael â'r mater.

Byddwn yn cydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr rheolwyr tir i helpu ffermwyr i leihau'r nitradau sy'n cael eu colli o'u tir. Yn benodol, bydd hyn yn nodi lle gall gweithredu atal y gofyniad i ddynodi yn y dyfodol o dan safonau a osodir gan y Gyfarwyddeb Nitradau.

Mae llygredd olew wedi parhau i effeithio ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru, gan ddeillio yn aml o ollyngiadau olew o danciau storio a phibellau diffygiol. Byddwn yn ymgynghori ar reoliadau i osod safonau gofynnol ar gyfer storio olew ac yn eu gweithredu, gan fod rheoliadau o'r fath wedi bod yn effeithiol wrth leihau llygredd gwasgaredig o ffynonellau storio a chyflenwi olew mewn rhannau eraill o'r DU.

[14] Cyfoeth Naturiol Cymru - Cynllun Gweithredu ar gyfer Llygredd Gwasgaredig - http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/water- policy/?lang=cy#.Uz1RL7lOXxM

## Ansawdd Dŵr Ymdrochi

Yng Nghymru, mae gennym 102 o ddyfroedd ymdrochi a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi. Yn 2015, roedd pob un o'r rhain yn bodloni safon uwch y canllawiau ac ni ragwelir y bydd yr un ohonynt yn wael o dan y dosbarthiadau newydd yn 2016. Mae hyn yn golygu mai ni sydd â'r ansawdd dŵr ymdrochi gorau yn y DU ac mae'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy gydweithio tuag at nod cyffredin. Mae dŵr ymdrochi o ansawdd uchel yn ffactor allweddol ar gyfer twristiaeth ac yn cefnogi llesiant yng Nghymru. Rydym yn ymdrechu i gynnal y safon uchel hon a byddwn yn sicrhau bod dyfroedd ymdrochi yng Nghymru yn parhau i fod y gorau yn y DU.



© Hawlfraint y Goron (2015) Croeso Cymru

# Cyfleoedd Dŵr Arloesol

## Twf Gwyrdd

Y ddealltwriaeth gyffredinol yw bod twf gwyrdd yn fodd o sicrhau cynnydd economaidd mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn gymdeithasol gynhwysol.
Drwy ganolbwyntio ar dwf gwyrdd, gallwn helpu i hybu'r newid i fod yn gymdeithas gydnerth, garbon isel, drwy sicrhau cymaint ag y bo modd o fuddiannau parhaol niferus i bobl a chymunedau, trechu tlodi a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru. Mae'r economi werdd yn elfen bwysig o dwf gwyrdd ac yn disgrifio is-set benodol o economi Cymru. Mae'r economi werdd yn sector sefydledig o economi Cymru sy'n tyfu, ac yn benodol, mae wedi sicrhau cynnydd o 2.4% mewn swyddi a chynnydd o 9.3% mewn gwerthiant yn ystod y dirwasgiad. Mae ein harfordir 1,200km a thua 32,000km2 o fôr yn cynnig cyfle arwyddocaol ar gyfer 'twf glas'. Byddwn yn edrych am gyfleoedd i roi'r cyllid, arloesedd, sgiliau a deddfwriaeth angenrheidiol ar waith er mwyn manteisio ar fomentwm cynyddol yr agenda twf cynaliadwy i sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol parhaol i Gymru. Bydd mabwysiadu dull mwy integredig o reoli dŵr ac adnoddau naturiol yn ehangach yn ein helpu i gyrraedd ein nod ar gyfer twf gwyrdd.

## Talu am Wasanaethau Ecosystemau yng Nghymru

Mae datblygu Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) yng Nghymru yn elfen sylweddol o'n hagenda twf gwyrdd. Mae datblygu TWE yn un mecanwaith a all ein helpu i gyflawni ein huchelgais ar gyfer twf gwyrdd, er enghraifft drwy ddarparu ffynhonnell incwm newydd ar gyfer ein cymunedau gwledig, gan helpu ein hagenda ar gyfer trechu tlodi, yn ogystal â gwireddu ein hamcanion amgylcheddol.

Mae TWE yn disgrifio amrywiaeth o gynlluniau cymhellion arloesol sy'n seiliedig ar y farchnad i wobrwyo rheolwyr tir, gan gynnwys ffermwyr a pherchnogion coetiroedd er enghraifft, am gynnal a gwella buddiannau amgylcheddol (gwasanaethau ecosystemau) megis rheoleiddio dŵr (e.e. ansawdd dŵr, rheoleiddio llifogydd) a rheoleiddio'r hinsawdd y tu hwnt i ofynion y rheoliadau. Mae TWE yn golygu bod 'prynwr' parod (e.e. cwmni dŵr), neu fuddiolwr gwasanaeth ecosystem (e.e. ansawdd dŵr) yn talu 'gwerthwr' yn wirfoddol (rheolwr tir fel arfer) sy'n barod i fabwysiadu mesurau i sicrhau bod y gwasanaeth ecosystem penodol yn cael ei ddarparu.

I bob pwrpas mae'n darparu cymhellion i fynd i'r afael â methiant y farchnad. Er enghraifft, nid yw pob gwasanaeth y mae'r gymdeithas yn galw amdanynt yn werthadwy, sy'n arwain at dangyflenwi neu orgyflenwi. Drwy newid y cymhellion economaidd sy'n wynebu ein rheolwyr tir, neu eraill sy'n gallu effeithio ar brosesau cyflenwi gwasanaethau ecosystemau, mae TWE yn ceisio cywiro'r diffygion hyn yn y farchnad.

Comisiynwyd adroddiad gennym i asesu'r potensial ar gyfer mecanweithiau marchnad TWE yng Nghymru ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014. Nod yr ymchwil oedd nodi rôl mecanweithiau marchnad TWE yn bwrw ymlaen â dull Llywodraeth Cymru o reoli

adnoddau naturiol, gan gynnwys helpu i lywio datblygiad Bil yr Amgylchedd (Cymru) a'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf.

Ystyrir mai marchnadoedd sy'n seiliedig ar ansawdd dŵr yw'r marchnadoedd ecosystem mwyaf rhwydd i'w prisio ac mae'n debyg mai dyma fydd y math cyntaf o gynllun TWE i gael ei ddatblygu yng Nghymru. Byddwn yn cefnogi datblygiad y mathau hyn o gynlluniau ac yn adolygu deddfwriaeth os bydd angen er mwyn ein galluogi i sefydlu'r math hwn o gynllun yn y tymor hir.

## Buddiannau ehangach i'r gymuned

Mae adnoddau dŵr wedi'u rheoli'n dda yn darparu nifer o fawr o fuddiannau, gan gynnwys cymorth uniongyrchol i swyddi a thwf gwyrdd. Fel rhan o'n gwaith i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n holl adnoddau naturiol, byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfleoedd twristiaeth a hamdden ein dyfroedd mewndirol ac arfordirol.

Wrth geisio gwireddu'r buddiannau y gall ein hadnoddau dŵr eu cynnig i greu swyddi a thwf gwyrdd ym maes twristiaeth a hamdden, mae angen i ni ystyried pryderon iechyd a diogelwch a phryderon amgylcheddol, a ddylai fod yn brif ystyriaethau wrth asesu'r cyfleoedd hyn. Bydd y risgiau'n amrywio yn ôl y gweithgaredd, er enghraifft pysgota, caiacio neu nofio, a natur y safle, ac mae angen asesu pob un yn unigol.

Mae'n anos rhoi gwerth ar rai o'r buddiannau sy'n deillio o'n hamgylchedd dŵr. Mae cael mynediad at nodweddion dŵr, sy'n aml wedi'u cysylltu â mannau gwyrdd, yn gallu bod yn fuddiol i les ac iechyd corfforol a meddyliol da mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae cynlluniau sy'n cael eu rheoli'n dda ar hyd a lled Cymru eisoes yn defnyddio nodweddion dŵr at ddibenion addysgol a gwella gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r angen i reoli adnoddau dŵr yn effeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod buddiannau cymunedol yn rhan o bob contract, lle bo hynny'n briodol, ac rydym hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau eu bod yn mabwysiadu'r un arferion. Dylai buddiannau cymunedol geisio bod o fudd uniongyrchol i gartrefi ar incwm isel neu sydd mewn perygl o wynebu tlodi.

## Prif Gamau Gweithredu

- Byddwn yn adolygu'r broses o gyflwyno deddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol yn gyfnodol er mwyn nodi synergeddau, cyfleoedd i symleiddio a chosteffeithlonrwydd, gan ystyried blaenoriaethau rheoli adnoddau naturiol a'n nodau llesiant.
- Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r Paneli Cyswllt Rheoli Basn Afon, sy'n hybu dull ar sail dalgylch, fel modd o ehangu cyfranogiad cymunedau yn y gwaith o ddatblygu polisi dŵr ar lefel dalgylch mwy lleol. Bydd hyn yn helpu i lywio datblygiad y dull ar sail ardal o reoli adnoddau naturiol, ac yn esblygu gyda'r gwaith hwnnw.
- Rydym wedi ymrwymo i ddiwygio'r system trwyddedau tynnu dŵr er mwyn llywio ein polisïau yn y dyfodol a sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau dŵr.
- Byddwn yn cynnwys eithriadau tynnu dŵr o fewn y system drwyddedu.
- Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu effeithiolrwydd ei ddarpariaeth bresennol o gyngor ar atal llygredd, monitro a'i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.
- Byddwn yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Gwasanaethau Cynghori Amaethyddol ein hunain i weithio gyda thirfeddianwyr er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o lygredd gwasgaredig a sut y gallant helpu i'w atal drwy reoli tir yn well.
- Byddwn yn annog gweithredu cymunedol ar raddfa dalgylch drwy ddatganiadau ardal a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau cydweithredol eraill sy'n ceisio gwella ansawdd dŵr yn eu hardal.
- Byddwn yn ymgynghori ar Reoliadau i leihau llygredd olew yng Nghymru ac yn eu gweithredu.
- Byddwn yn ystyried opsiynau i gefnogi datblygiad cynlluniau TWE ac yn adolygu deddfwriaeth os bydd angen er mwyn ei gwneud hi'n bosibl sefydlu marchnad TWE ar gyfer y tymor hir.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r sectorau perthnasol i fynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig drwy ddeall, adolygu a newid arferion a dulliau rheoleiddio presennol lle bo hynny'n briodol. Gallai hyn gynnwys y defnydd o reolau rhwymo cyffredinol o bosibl.



## 4.2 Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr

Mae pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr a'r angen i warchod y gallu i ddiwallu anghenion hirdymor yn egwyddor allweddol o ran datblygu cynaliadwy, yn arbennig mewn perthynas â rheoli ein hadnoddau dŵr. Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswyddau ar hyn o bryd i weithredu cynlluniau cadarn ar gyfer sicrhau bod ein hadnoddau dŵr a'n systemau cyflenwi yn cael eu rheoli, eu cynnal a'u datblygu'n effeithiol. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o gynlluniau'n cael eu cynhyrchu bob 5 mlynedd gan y cwmnïau dŵr, er enghraifft:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr – Mae'r cynllun statudol hwn yn modelu cyflenwad dŵr a galw am ddŵr dros gyfnod o 25 mlynedd, gan ystyried rhagamcanion newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a datblygiadau newydd. Mae'r cynllun yn llywio cynlluniau seilwaith a buddsoddi'r cwmnïau dŵr ar gyfer y dyfodol.
- Cynllun Sychder – Mae'r cynllun statudol hwn yn nodi'r camau gweithredu tymor byr y bydd y cwmni dŵr yn eu rhoi ar waith ar adeg o sychder. Mae'r cynllun hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyfer cynlluniau rheoli asedau'r cwmnïau.
- Cynllun Rheoli Asedau – Mae'r cynllun hwn yn amlinellu cynlluniau buddsoddi arfaethedig cwmnïau dŵr dros gylch o 5 mlynedd. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu ar ddiwedd pob cyfnod.

Nid yw'r amserlenni ar gyfer cynhyrchu'r cynlluniau hyn bob amser yn cyd-fynd â'i gilydd a chyda fframweithiau cynllunio rheoleiddiol ehangach megis proses adolygu prisiau Ofwat[15].

Byddwn yn datblygu fframwaith cynllunio a rheoleiddio ar gyfer y cwmnïau dŵr a fydd yn cefnogi ein hegwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Byddwn yn adolygu swyddogaethau cynllunio presennol gan gynnwys amseriad a chysondeb y cynlluniau hyn. Bydd hyn yn sicrhau ymagwedd fwy strategol o ran cynlluniau busnes y cwmnïau, a lle gall camau priodol o wahanol gynlluniau fwydo i mewn i'w gilydd, bydd yn hwyluso cydweithio rhwng y cwmnïau dŵr a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y diwydiant dŵr. Bydd yr ymagwedd hon hefyd yn helpu rheoleiddwyr i flaenoriaethu meysydd a phrosesau sydd angen eu gwella er mwyn cynyddu buddiannau i bobl ac amgylchedd Cymru, ac yn galluogi'r cwmnïau dŵr yn eu tro i nodi lle bydd angen canolbwyntio buddsoddiadau yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad i ymgymerwyr carthffosiaeth ddatblygu a chynnal cynllun strategol ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Ar y lefelau buddsoddi presennol, mae'n bosibl na fydd carthffosydd cyhoeddus newydd yn cael eu hailosod am hyd at 700 o flynyddoedd[16]. Mae angen archwilio, cynnal a chadw ac uwchraddio'r seilwaith carthffosydd a'r draeniau sy'n heneiddio, er mwyn iddynt allu parhau i weithredu'n effeithiol ac mae angen ystyried yr effaith ar filiau cwsmeriaid yn awr ac yn y dyfodol.

[15] http://www.ofwat.gov.uk/pricereview/

[16] http://www.dwrcymru.com/library/PR14/YCYP_Eng.pdf/

Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer dŵr gwastraff a rheoli carthffosiaeth. Mae cynllunio cydweithredol hirdymor ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â pherygl llifogydd trefol a sicrhau canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol.

Ein nod yw sicrhau bod systemau carthffosiaeth a draenio yn gydnerth ac yn cael eu cynnal yn dda, gyda digon o gapasiti i reoli'r galw arnynt heb achosi llygredd neu garthffosiaeth yn gorlifo i gartrefi pobl. Bydd hyn yn ein galluogi i symud tuag at ymagwedd ataliol, egwyddor allweddol arall ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Dylai fframwaith cynllunio a rheoleiddio cwmni dŵr ar gyfer dŵr a charthffosiaeth gynnwys:

- Gwreiddio a chysoni cynlluniau cwmnïau dŵr yn ein polisi adnoddau naturiol Cenedlaethol a'n prosesau cynllunio adnoddau naturiol ar sail ardal er mwyn sicrhau bod gwaith cynllunio gwasanaethau dŵr yn llywio ac yn ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol;
- Cynlluniau rheoli a buddsoddi cydweithredol ar gyfer dalgylchoedd.
- Mesurau cydnerthedd, megis rhagamcanion newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a datblygiadau newydd.
- Rhagdybiaeth o blaid atebion cynaliadwy, a thystiolaeth o'u defnydd yn hytrach nag ehangu neu adnewyddu capasiti'r seilwaith presennol.
- Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Tystiolaeth fod atebion cynaliadwy ar gyfer dŵr gwastraff a thrin dŵr wedi cael eu hystyried, a chyfiawnhad cadarn pan na chânt eu defnyddio.
- Tystiolaeth gadarn, gyfredol a chredadwy i ddangos cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau domestig ac Ewropeaidd gorfodol.

## Gollyngiadau

Mae gollyngiadau yn flaenoriaeth bwysig i gwsmeriaid, a gall niweidio enw da'r diwydiant. Mae'r diwydiant wedi dangos y gall ddod yn fwy effeithiol o ran canfod ac atgyweirio gollyngiadau.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau gadw gollyngiadau ar y pwynt lle mae cost amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol lleihau gollyngiadau yn llai neu'r un faint â'r gost o gael dŵr o ffynonellau eraill. Dylai fod gan gwmnïau dŵr ddull strategol o reoli gollyngiadau i lywio'r rhagolygon gollyngiadau hirdymor yn eu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr ragweld gostyngiad yng nghyfanswm y gollyngiadau dros gyfnod y cynlluniau.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr barhau i arloesi a datblygu arbenigedd i atal, nodi ac atgyweirio gollyngiadau yn fwy effeithiol. Rydym yn disgwyl i Ofwat barhau i gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â gollyngiadau, gan adeiladu ar y gwelliannau sydd eisoes wedi'u cyflawni ers i'r targedau gael eu cyflwyno.

## Prif gamau gweithredu

- Er mwyn lleihau'r baich cynllunio ar gwmnïau dŵr, byddwn yn adolygu'r prosesau deddfwriaethol, rheoleiddio a chynllunio sy'n gysylltiedig â rheoli gwasanaethau dŵr.
- Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth.
- Rydym yn disgwyl i gwmnïau gadw gollyngiadau ar y pwynt lle mae'r gost amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol o leihau gollyngiadau yn llai neu'r un faint â'r gost o gael dŵr o ffynonellau eraill.



© Hawlfraint y Goron (2015) Dŵr Cymru

## 4.3 Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid

### Prif Faterion

#### Mynediad at Wasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Fforddiadwy

Mae sicrhau bod pobl a busnesau yn gallu cael mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, rydym yn pryderu am lefel y taliadau dŵr ac effaith y cynnydd mewn ffioedd ar y cwsmeriaid hynny sy'n lleiaf abl i dalu.

Mae fforddiadwyedd dŵr yn un rhan o'r broblem tlodi gyffredinol, lle mae aelwydydd yn cael anhawster i fforddio hanfodion bywyd. Ystyrir bod aelwydydd yn byw mewn tlodi dŵr os byddant yn gwario mwy na 3%[17] o'u hincwm ar eu bil dŵr. Bydd sefydlu cyswllt rhwng tlodi dŵr a materion costau byw ehangach, megis tlodi tanwydd, yn gam allweddol wrth fynd ati i gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Er mwyn cefnogi amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Strategaeth Tlodi Plant Cymru, ac mewn ymateb i'r pwerau a nodir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, rydym wedi cyhoeddi canllaw[18] i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth ac Ofwat ar gynnwys tariffau cymdeithasol mewn cynlluniau ffioedd yn y dyfodol.

Bydd tariffau cymdeithasol yn galluogi'r cwmnïau i leihau'r costau i gwsmeriaid sy'n llai abl i dalu eu biliau ac yn darparu cymorth ychwanegol ynglŷn â lleihau costau drwy fesurau effeithlonrwydd dŵr neu ystyried newid i daliadau mesuryddion, er enghraifft.

Mae cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru wedi ymrwymo i gyflwyno tariffau cymdeithasol, yn unol â'n canllawiau. Byddwn yn monitro defnydd ac effeithiolrwydd y tariffau cymdeithasol hyn a byddwn yn adolygu a diwygio ein canllawiau fel y bo'n briodol. Rydym hefyd yn disgwyl i'r cwmnïau dŵr adolygu eu tariffau a phecynnau cymorth ehangach yn rheolaidd ar gyfer cwsmeriaid sy'n agored i niwed, er mwyn sicrhau eu bod yn gwasanaethu'r bobl gywir ac yn chwilio am atebion blaengar.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes ar y gweill, ac yn ystyried cyflwyno argymhellion pellach o adroddiad Adolygiad Walker ac yn defnyddio hyn fel sail ar gyfer cynnal adolygiad ehangach o gefnogaeth a chymorth i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd. Gallai hyn gynnwys:

- Penderfynu a oes ffordd decach o asesu taliadau dŵr na Gwerth Ardrethol, neu a oes opsiwn ar gyfer adolygu Gwerthoedd Ardrethol.
- Ystyried dull 'siop un stop' ar gyfer rhoi cyngor a chymorth ar faterion yn ymwneud ag osgoi dyled a fforddiadwyedd.

[17] I Fitch, M. a Price, H. Water Poverty in the UK. Cyhoeddwyd gan Public Utilities Access Forum, Gorffennaf 2002, cyhoeddwyd ar y we gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd: www.cieh.org/uploadedFiles/Core/Policy/Publications_and_information_services/Policy_publications/Publications/waterpoverty.pdf

[18] Canllaw Tariffau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru – http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/social-tariff-guidance/?skip=1&lang=cy

Mae'n bosibl y bydd rhai ar incwm isel yn teimlo bod maint biliau, neu filiau blynyddol neu ddwywaith y flwyddyn yn arbennig o anodd i ymdopi â nhw. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cwsmeriaid yn cael cynnig opsiynau talu hyblyg er mwyn helpu gyda'r problemau hyn. Yn benodol, dylai cwsmeriaid allu gwneud taliadau rheolaidd (megis bob wythnos neu bob pythefnos). Dylai cynlluniau talu wneud yn glir fod yr opsiynau hyn ar gael ac y dylid eu dwyn i sylw'r cwsmeriaid sydd fwyaf o angen cymorth.

Mae'n bwysig cydnabod na fydd pob cartref yn dymuno (neu'n gallu) talu eu biliau drwy ddefnyddio Debyd Uniongyrchol. Mae'n hanfodol nad yw cartrefi ar incwm isel yn cael eu rhoi dan anfantais ac nad ydynt yn talu mwy am eu biliau dŵr yn y pen draw, os ydynt yn dewis peidio â thalu drwy Ddebyd Uniongyrchol. Mae teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn aml mewn perygl o brofi'r "premiwm tlodi" lle mae aelwydydd ar incwm isel yn talu cyfran lawer mwy am nwyddau a gwasanaethau. Mae'n hanfodol fod Ofwat a chwmnïau dŵr yn rhoi camau blaengar ar waith i sicrhau na fydd hyn yn digwydd drwy alluogi cwsmeriaid i ddewis opsiynau talu hyblyg heb unrhyw gost ychwanegol. Wrth wneud hynny, byddant yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at un o amcanion Strategaeth Tlodi Plant 2015 Llywodraeth Cymru, sef cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd drwy gyngor ar ddyledion a materion ariannol, a thrwy fesurau i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi".

## Mynd i'r Afael â Dyled

Bydd lleihau 'dyledion drwg' yn y diwydiant dŵr hefyd yn cyfrannu at leihau biliau dŵr. Mae dyled ddrwg yn aml yn cael ei hachosi am nad yw'n bosibl casglu'r ddyled (ar ôl disbyddu pob ymdrech resymol) neu am fod y gost o'i hadfer yn fwy na'r ddyled. Dros y degawd diwethaf, mae dyledion drwg cwmnïau dŵr wedi cynyddu[19] ac yng Nghymru, gall y refeniw sy'n cael ei golli ychwanegu cymaint ag £20[20] y flwyddyn i fil y cartref.

Dylai cymorth i aelwydydd sy'n profi anawsterau helpu i leihau lefelau dyledion drwg. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gwmnïau dŵr adnabod eu cwsmeriaid a chynnig atebion arloesol, er enghraifft tariffau sydd wedi'u targedu'n briodol a chynlluniau talu, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n mynd i ddyled a chynyddu'r nifer sy'n talu eu dyledion.

Byddwn yn sicrhau bod gan y cwmnïau dŵr y dulliau priodol ar gyfer mynd i'r afael â dyledion drwg. Daeth Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchnogion) 2014[21] i rym ar 1 Ionawr 2015. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion eiddo preswyl ddarparu enwau unrhyw feddianwyr nad ydynt yn berchnogion, eu dyddiad geni (os ar gael) a dyddiad dechrau eu daliadaeth, i'r cwmni dŵr perthnasol.

Mae hyn yn galluogi'r cwmnïau dŵr i anfon biliau cywir ac amserol i'r eiddo hyn, nodi cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn gynt a darparu'r gefnogaeth briodol. Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn haws i fynd i'r afael â biliau heb eu talu. Bydd hyn yn cyfrannu at leihau'r costau a ysgwyddir ar hyn o bryd gan gwsmeriaid eraill.

[19] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar ymdrin â 'dyled ddrwg' yn y diwydiant dŵr yng Nghymru, Atodiad 2 – Cyfnod Ymgynghori Asesiad Effaith Rheoleiddiol Chwefror 2013, cyhoeddwyd Chwefror 2013, gwefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/tackling-bad-debt-in-the- water-industry/?lang=cy

[20] O'r cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, mae Dŵr Cymru yn amcangyfrif bod swm sy'n gyfwerth ag £20 o fil cyfartalog cwsmeriaid yn mynd tuag at y costau o adfer refeniw dyledus. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r swm hwn amrywio rhwng cwmnïau, oherwydd mae'r dulliau a ddefnyddir i gyfrifo'r swm yn sensitif i bolisïau dileu dyled y cwmnïau unigol. Felly, ystyrir bod y swm o £20 yn amcangyfrif uwch ac felly dylid ei ystyried gyda pheth gofal.

[21] Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchnogion) 2014 – http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/3156/made

Byddwn yn rhoi mesurau ar waith i adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd y Rheoliadau, a gwneud newidiadau lle bo hynny'n briodol.

## Ffocws cryf ar gwsmeriaid

Dylid sicrhau bod ffocws cryf ar gwsmeriaid yn sail i'r prosesau cyflenwi gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn galw am ddealltwriaeth gadarn o anghenion cwsmeriaid heddiw ac yn y dyfodol, yn ogystal â llais cryf i ddefnyddwyr.

Er bod ffocws ar gwsmeriaid yn bwysig, credwn fod mwy i'n perthynas â dŵr na'r biliau rydym yn eu talu i'n darparwyr dŵr. Dŵr yw un o'n hadnoddau a'n hasedau naturiol pwysicaf ac fel y nodwyd yn gynharach yn y Strategaeth, byddwn yn ceisio ysgogi mwy o ddiddordeb a chyfranogiad dinesig yn y gwaith o gynllunio a rheoli ein hadnoddau dŵr.

Rydym am i gwmnïau dŵr sicrhau bod y lefel o ymgysylltiad â chwsmeriaid a gwaith ymchwil a gyflawnir yn ystod adolygiadau prisiau yn dod yn rhan allweddol o'u gweithrediadau, er enghraifft, adeiladu ar waith y Grŵp Her Cwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'r diwydiant dŵr a rheoleiddwyr ystyried eu hymchwil eu hunain ar ddefnyddwyr ac ymchwil partïon eraill ac ymateb yn briodol i ganfyddiadau'r ymchwil. Rydym hefyd yn disgwyl i gwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru fod ymhlith y goreuon ar bob mesur perfformiad, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cwsmeriaid[22]. Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr i sefydlu dull addas o fonitro.

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr yng Nghymru ymgysylltu'n effeithiol ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a datblygwyr pan fydd cynigion datblygu yn cael eu cyflwyno. Yn yr un modd, disgwyliwn i gwmnïau dŵr weithio'n effeithiol gyda busnesau pan fydd gofynion newydd neu ddiwygiedig yn cael eu nodi ar gyfer cyflenwadau. Rydym hefyd yn disgwyl i reoleiddwyr gefnogi'r prosesau hyn yn briodol.

Rydym yn disgwyl i'n cwmnïau dŵr fod yn fwy rhagweithiol a chefnogol i anghenion busnesau yng Nghymru, a chynnig gwasanaethau gwych i'w cwsmeriaid. Bydd angen i Ofwat barhau i chwarae rôl allweddol wrth yrru arbedion effeithlonrwydd ac annog cwmnïau dŵr yng Nghymru i fod yn arloesol mewn perthynas â'u cwsmeriaid busnes. Byddwn yn gweithio gydag Ofwat, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a'r cwmnïau dŵr i sicrhau bod cyfathrebu a gwybodaeth gadarn ar gael i gwsmeriaid busnes ynglŷn â chymhwyster cystadleuaeth fanwerthol er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, yn enwedig i gwsmeriaid mewn ardaloedd trawsffiniol, ac i sicrhau nad ydynt yn cael eu rhoi dan anfantais.

Byddwn yn monitro costau a buddiannau diwygio'r farchnad, a fydd yn berthnasol i gwmnïau dŵr sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr o fis Ebrill 2017. Bydd hyn yn llywio ein polisi yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau i gwsmeriaid dibreswyl sy'n cael eu gwasanaethu gan gwmnïau dŵr a leolir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Mae'r diwydiant dŵr yn sector cymhleth ac felly mae'n hanfodol cael llais annibynnol ar gyfer cwsmeriaid busnes a chwsmeriaid domestig yng Nghymru. Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid dŵr ac rydym yn cydnabod yr heriau

[22] Mae OFWAT yn darparu gwybodaeth ar berfformiad cwmnïau dŵr http://www.ofwat.gov.uk/regulating/reporting/prs_web2012-13performance

penodol y mae diwydiant â monopoli daearyddol, gyda phrosesau pennu prisiau cymhleth, yn eu creu o ran cynrychioli defnyddwyr yn effeithiol . Byddwn yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth y DU i adolygu rôl a swyddogaethau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol. Bydd hyn yn helpu i lywio ein penderfyniad ar y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer cynrychioli defnyddwyr yng Nghymru. Bydd ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ar y buddiannau hirdymor i gwsmeriaid yng Nghymru.

## Hyrwyddo Defnydd Effeithlon o Ddŵr

Mae defnyddio dŵr yn effeithlon yn rhan hanfodol o reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn y tymor hir. Mae gwelliannau i effeithlonrwydd ynni yn hollbwysig ar gyfer twf gwyrdd – gan wella cydnerthedd a chynhyrchiant busnesau, cymunedau a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, lleihau effeithiau defnydd a chynhyrchiant, trechu tlodi a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae ein defnydd o ddŵr wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn annog gostyngiad yn y defnydd o ddŵr domestig a busnes, mae angen i ni wneud mwy i helpu pobl i ddefnyddio dŵr yn effeithlon. Bydd gostyngiad yn y defnydd o ddŵr yn lleihau'r ynni a ddefnyddir i drin a chyflenwi dŵr yfed, gan helpu i leihau ein hôl troed carbon. Gall hefyd helpu aelwydydd i leihau eu biliau ynni drwy ddefnyddio llai o ddŵr poeth, er enghraifft.

Lle bo'n bosibl, mae cynlluniau tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru, Nyth[24] ac Arbed, wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau dŵr i ddarparu mesurau arbed dŵr fel rhan o'u pecynnau cymorth. Mae hyn yn ein galluogi i osod mesurau dŵr ac effeithiolrwydd ynni mewn tai ar yr un pryd, gan gynyddu effaith y cynlluniau hyn a lleihau nifer yr ymweliadau ag eiddo. Byddwn yn parhau i annog y cwmnïau dŵr i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

Er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol, byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr ac eraill â diddordeb i annog a chymell ymgysylltiad a gweithredu ar y defnydd o ddŵr, i herio rhagdybiaethau ac i hyrwyddo manteision effeithlonrwydd dŵr. Ein nod yw cynorthwyo defnyddwyr domestig a busnes i leihau eu defnydd o ddŵr.

Byddwn hefyd yn edrych ar rôl mesuryddion i annog gostyngiad yn y defnydd o ddŵr. Rydym yn cydnabod y byddai angen cyflwyno unrhyw ddull o ddefnyddio mesuryddion ar y cyd â strwythurau talu blaengar, gan gynnwys tariffau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod aelwydydd â phroblemau o ran fforddiadwyedd yn cael eu diogelu.

Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori arbenigol. Darperir mynediad at y gwasanaethau hyn drwy Busnes Cymru[25] (ar gyfer busnesau), Cyswllt Ffermio[26] (ar gyfer busnesau fferm a choedwigoedd), a Cymru Effeithlon (sydd wedi'i anelu at gartrefi, cymunedau a sefydliadau'r sector cyhoeddus). Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a chyrff cynghori eraill i ddatblygu negeseuon cyson ynghylch rheoli dyledion dŵr, effeithlonrwydd dŵr, a sut y gall defnyddwyr ymgysylltu â'u cwmnïau dŵr.

[23] Delivering results for water customers in Wales – ICS Consulting a Cascade ar ran Llywodraeth Cymru, 2014

[24] Nyth – http://www.nestwales.org.uk/

[25] Busnes Cymru – http://business.wales.gov.uk/

[26] Wessex Warer Towards Sustainable Charging – http://www.wessexwater.co.uk/about/threecol.aspx?id=9026&linkidentifier=id&itemid=9026

Bydd y rhain yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaethau cynghori arbenigol a byddwn yn gofyn i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ymchwilio i opsiynau ar gyfer bwydo mewn i wasanaethau cynghori defnyddwyr ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar osgoi dyled.

## Prif gamau gweithredu

- Yn unol â'r ymrwymiad yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru i gynorthwyo teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm aelwydydd drwy gyngor ar ddyledion a chyngor ariannol a gweithredu i fynd i'r afael  â'r premiwm tlodi, byddwn yn rhoi'r camau canlynol ar waith:
- Byddwn yn cynnal ymchwil pellach a rhaglen waith i fynd i'r afael â thlodi dŵr, lleihau nifer y cartrefi sy'n cael trafferth i dalu eu biliau a sicrhau strwythurau ac opsiynau talu teg a hyblyg ar gyfer pob cwsmer yng Nghymru.
- Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr fod yn flaengar wrth gynorthwyo eu cwsmeriaid i reoli dyledion.
- Byddwn yn monitro defnydd ac effeithiolrwydd tariffau cymdeithasol ac yn adolygu a diwygio ein canllawiau fel y bo'n briodol.
- Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr adolygu eu tariffau a phecynnau cymorth ehangach i gwsmeriaid sy'n agored i niwed yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn gwasanaethu'r bobl gywir ac yn chwilio am atebion blaengar.
- Byddwn yn datblygu mesurau ar gyfer asesu effeithiau Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchnogion).
- Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchnogion) ac yn gwneud newidiadau lle bo'n briodol.
- Rydym yn disgwyl i Gyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru arwain y gwaith o gasglu a dosbarthu gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â fforddiadwyedd dŵr a rheoli dyledion, gan gynnwys creu cysylltiadau â mentrau ehangach ar gyfer trechu tlodi.
- Byddwn yn monitro costau a manteision diwygio'r farchnad, a fydd yn berthnasol i gwmnïau dŵr sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr o fis Ebrill 2017. Bydd hyn yn llywio ein polisi yn y dyfodol ar wasanaethau i gwsmeriaid dibreswyl sy'n cael eu gwasanaethu gan gwmnïau dŵr sydd wedi eu lleoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
- Byddwn yn edrych ar agweddau'r cyhoedd tuag at y defnydd o ddŵr a gwerth dŵr yng Nghymru i helpu i lywio'r modd y gall busnesau ac aelwydydd ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon.
- Byddwn yn asesu ac yn ymgynghori ar opsiynau i annog gostyngiad yn y defnydd o ddŵr. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r cwmnïau dŵr ac eraill sydd â diddordeb i annog a chymell ymgysylltiad a gweithredu ar ddefnydd dŵr; i herio canfyddiadau; i hyrwyddo manteision effeithlonrwydd dŵr; a chynnal ymchwiliadau pellach i gostau a manteision mesuryddion.
- Byddwn yn disgwyl i gwmnïau dŵr gynnig opsiynau talu hyblyg heb unrhyw gost ychwanegol i'r cwsmer er mwyn sicrhau bod deiliaid tai sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n byw mewn tlodi yn gallu talu am eu biliau dŵr.



© Cyfoeth Naturiol Cymru, 2015

## 4.4 Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed

### Prif Faterion

#### Cynnal a gwella ansawdd dŵr yfed

Mae'r cyflenwad o ddŵr yfed i'n cartrefi, busnesau a diwydiant yn wasanaeth hollbwysig, sy'n cefnogi gweithgarwch economaidd ac yn diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Byddwn yn gweithredu i gynnal safon uchel bresennol ein dŵr yfed cyhoeddus a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed drwy Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr weithredu ar y canfyddiadau yn adroddiadau blynyddol yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr gynnal ac adeiladu ar arfer da a gwneud gwelliannau lle bo angen i sicrhau bod gennym ddŵr yfed o safon, sy'n lân, yn iachus, yn ddiogel ac yn ddibynadwy.

#### Systemau cyflenwi dŵr priodol sydd wedi'u rheoli'n dda

Mae seilwaith cyflenwi dŵr priodol sydd wedi'i reoli'n dda yn hollbwysig er mwyn cynnal a gwella ansawdd dŵr a lleihau gollyngiadau. Ond mae hefyd yn hollbwysig sicrhau bod pibellau a ffitiadau sy'n cysylltu â'r seilwaith yn addas i'r diben.

Mae pibellau cyflenwi dŵr o fewn ffiniau eiddo yn gallu effeithio ar ansawdd y dŵr o'r tap, a gallant achosi gollyngiadau heb eu rheoli. Mae'r pibellau cyflenwi hyn yn eiddo preifat ac maent yn cysylltu adeiladau â'r seilwaith cyflenwi dŵr cyhoeddus. Mae nifer ohonynt yn hen ac wedi erydu, ac mae hyn yn gallu achosi gollyngiadau a gall effeithio ar ansawdd y dŵr. Yn aml, nid yw'r perchnogion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal a chadw'r pibellau hyn ac felly nid oes unrhyw ddulliau ganddynt wedi'u cynllunio i'w hatgyweirio a'u hadnewyddu.

Yn dilyn ymgynghoriad ar y cyd â Llywodraeth y DU yn 2013/14[27], rydym yn cynnig edrych ymhellach ar gostau a manteision trosglwyddo perchnogaeth am y gyfran o'r pibellau cyflenwi dŵr sy'n eiddo preifat ar hyn o bryd i'r cwmnïau dŵr.

Gallai trosglwyddiad o'r fath helpu i reoli ac atgyweirio'r pibellau hyn mewn ffordd fwy strategol a darbodus, a gyda rhaglen adnewyddu wedi'i chynllunio, gallai arwain at ddull mwy cynaliadwy o reoli'r rhwydwaith, a fyddai'n helpu i gynnal ansawdd dŵr yfed. Gallai trosglwyddiad arwain hefyd at leihau gollyngiadau, drwy gyflymu amseroedd atgyweirio o ganlyniad i eglurder ynglŷn â pherchnogaeth a pholisïau gwasanaeth cwmnïau dŵr.

Er mwyn diogelu ansawdd dŵr yfed mewn adeiladau a lleihau risgiau i iechyd, mae'n hollbwysig fod deunyddiau a ffitiadau addas yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu gosod yn briodol er mwyn atal y dŵr rhag cael ei halogi, er enghraifft, cyflwyno plwm wrth ddefnyddio sodr plwm heb ei gymeradwyo i'w ddefnyddio mewn systemau dŵr yfed neu achos o drawsgysylltiad â dŵr nad yw'n ddŵr yfed. Mae'r Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr)[28] yn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau hyn a diogelu ansawdd dŵr yfed mewn adeiladau. Er mwyn codi safonau arferion plymio, mae nifer o gynlluniau cymeradwyo yn cael eu datblygu ar gyfer contractwyr. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, WRAS a gosodwyr i hyrwyddo cynlluniau o'r fath.

[27] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar ddyfodol rheoli pibellau cyflenwi dŵr preifat – https://www.gov.uk/government/consultations/future-management-of-private-water-supply-pipes

[28] Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr ) (1999) – http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/1148/contents/made

## Plwm mewn Cyflenwadau Dŵr

Mae'n rhaid i ni anelu at sicrhau cyn lleied â phosibl o gysylltiad â phlwm i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, felly byddwn yn ystyried opsiynau rheoli i leihau cysylltiad â phlwm a risgiau cysylltiedig i iechyd.

Mae pibellau a ffitiadau dŵr sy'n cynnwys plwm wedi cael eu defnyddio at ddibenion plymio hyd at yn gymharol ddiweddar. Mae effeithiau plwm mewn dŵr yfed ar iechyd, yn arbennig i blant, wedi bod yn destun gwaith ymchwil rhyngwladol[29]. Ar hyn o bryd, mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli drwy ddosio dŵr yfed â ffosffad, sy'n rhwystro'r plwm rhag hydoddi yn y dŵr. Er nad dyma'r dull mwyaf economaidd o reoli risg plwm, mae'n diddymu risgiau hirdymor pibellau a ffitiadau plwm. Hefyd, mae adnoddau ffosffad yn gyfyngedig, ac mae ei ddefnyddio mewn dŵr yfed yn creu goblygiadau o ran trin carthion a llygredd dŵr. Byddwn yn gweithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed, y cwmnïau dŵr ac eraill i edrych ar arfer gorau ac opsiynau i fynd i'r afael â risg plwm yn trwytholchi i mewn i gyflenwadau dŵr.

## Cysoni â pholisi ehangach

Byddwn yn cysoni amcanion polisi dŵr yfed ar gyfer Cymru sy'n darparu dulliau integredig o reoli ar sail dalgylch er mwyn sicrhau cydbwysedd teg a phriodol rhwng anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Byddwn yn gweithredu i sicrhau bod cwmnïau dŵr yng Nghymru yn rheoli eu hasedau er mwyn eu cadw'n addas i'r diben ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, a bod stiwardiaeth y cwmnïau dŵr ar eu hasedau yn rhoi sylw teg i'r angen am system gydnerth ac atebion cynaliadwy.

## Cyflenwadau Dŵr Preifat

Mae natur wledig y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru yn golygu bod nifer o bobl yn dibynnu ar eu cyflenwadau dŵr preifat eu hunain. Mae adroddiadau'r Prif Arolygydd Dŵr Yfed wedi amlygu'r angen penodol am wella cyflenwadau dŵr preifat sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru o dan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010[30].

Mae'r rheoliadau hyn yn gosod y safonau sy'n rhaid i holl gyflenwadau preifat gydymffurfio â nhw ac yn cadarnhau dyletswyddau awdurdodau lleol i fonitro cyflenwadau dŵr preifat, cadw cofnodion a'u hanfon i'r Arolygiaeth Dŵr Yfed a ac at Weinidogion Cymru. Byddwn yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y rheoliadau hyn.

Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau a strategaeth ymgysylltu i helpu perchnogion cyflenwadau preifat i wella eu dealltwriaeth o iechyd y cyhoedd a materion ansawdd dŵr yng Nghymru, a'u cyfrifoldebau statudol.

[29] Sefydliad Iechyd y Byd – Water Related Diseases – http://www.who.int/water_sanitation_health/diseases/lead/en/

[30] Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 – http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/privatesupplies/?skip=1&lang=cy

## Prif gamau gweithredu

- Byddwn yn gweithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i gadw golwg ar y ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer ansawdd dŵr yfed ac yn ei diwygio lle bo angen.
- Byddwn yn hyrwyddo cynlluniau contractwyr cymeradwy, fel cynllun gosodwyr WaterSafe er mwyn codi safon gosodiadau plymio yng Nghymru.
- Byddwn yn archwilio costau a manteision trosglwyddo perchnogaeth y gyfran o'r pibellau cyflenwi dŵr sy'n eiddo preifat ar hyn o bryd, i'r cwmnïau cyflenwi dŵr.
- Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau a strategaeth ymgysylltu i helpu perchnogion cyflenwadau preifat i wella eu dealltwriaeth o faterion iechyd y cyhoedd ac ansawdd dŵr yng Nghymru, a'u cyfrifoldebau statudol.
- Byddwn yn adolygu Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau.



## 4.5 Systemau draenio a charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain ganrif

Mae systemau draenio a charthffosiaeth yng Nghymru yn ased hanfodol sy'n aml yn cael ei anghofio. Rydym eisiau seilwaith draenio a charthffosiaeth er mwyn i ddŵr gwastraff a dŵr wyneb gael eu rheoli'n dda ac mewn ffordd integredig, gyda digon o allu i reoli'r galw a osodir arno a heb achosi llygredd neu garthffosiaeth yn gorlifo i gartrefi pobl.

Mae'n hanfodol fod systemau carthffosiaeth a draenio yn cael eu rheoli ar y cyd yn y tymor hir i fynd i'r afael â pherygl llifogydd trefol a chyflawni canlyniadau ein Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Pan fo perfformiad asedau carthffosiaeth yn dirywio, mae'n peri risg sylweddol i ansawdd y dŵr, ac rydym am weld dull strwythuredig o gynllunio a chynnal y rhwydwaith carthffosiaeth a draeniau.

Byddwn yn sefydlu fframwaith i nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, y data neu'r broses reoleiddio ac yn ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau bod gan ymgymerwyr carthffosiaeth, rheoleiddwyr carthffosiaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill adnoddau i wneud yn siŵr fod ein system ddraenio a charthffosiaeth yn addas i'r diben ar gyfer yr 21ain ganrif a thu hwnt.

### Prif Faterion

#### Dull cynaliadwy o ddraenio

Mewn ardaloedd gwledig a datblygedig, mae llifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig yn faterion sy'n peri pryder cynyddol. Bydd y cynnydd a ragwelir mewn digwyddiadau glaw trwm yn creu heriau hyd yn oed yn fwy i'n systemau draenio a'r ffordd y byddwn yn rheoli tir. Mae angen dull o ddraenio sy'n gallu ymdopi â'r heriau hyn a helpu i fynd i'r afael â risg llifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig.

Mae systemau draenio cynaliadwy (SDCau) ar gyfer rheoli dŵr wyneb yn ceisio ymdrin â dŵr glaw ar yr wyneb ac yn agos i lle mae'n disgyn. Mae'r dull hwn yn gallu arafu llif y dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd a diogelu ansawdd dŵr, gan ddarparu amrywiaeth eang o fuddiannau cymunedol hefyd fel gwella amwynder gweledol datblygiadau, darparu mannau agored, a chyfrannu at gydnerthedd ecosystemau.

Gellir defnyddio SDCau yn effeithiol mewn ardaloedd gwledig a threfol ac maent yn cefnogi datblygiadau newydd heb ychwanegu at y perygl o lifogydd neu lygredd. Mewn ardaloedd gwledig, gall arferion rheoli tir da gyfrannu llawer at y gwaith o leihau'r perygl o lifogydd ymhellach i lawr yr afon a diogelu ansawdd dŵr ond gall technegau SDCau gynnig ffyrdd hefyd o gyfeirio dŵr wyneb i ffwrdd o fuarthau ac adeiladau ffermydd.

Er gwaethaf y buddiannau hyn, rydym yn rhagweld bod cyfran y datblygiadau newydd a'r ailddatblygiadau sydd wedi'u draenio gan SDCau yn isel, ac mae'r nifer sydd wedi manteisio ar hyn wedi bod yn araf. Mae Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010[31] yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion

[31] Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr – http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents

draenio cynaliadwy sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol. Byddwn yn ystyried sut i weithredu hyn pan fyddwn yn penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o wreiddio egwyddorion SDCau mewn datblygiadau newydd yn y tymor hwy.

Yn y tymor byr, byddwn yn cyhoeddi safonau cenedlaethol interim ar sail gynghorol i alluogi cynllunwyr; datblygwyr eiddo; awdurdodau lleol ac eraill sydd â diddordeb i ddangos eu bod wedi ystyried cyngor cynllunio Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu a Pherygl o Lifogydd ac i dreialu'r safonau, felly os bydd angen gellir eu hadolygu cyn iddynt gael eu gwneud yn statudol.

Mae hefyd yn hanfodol fod trefniadau mabwysiadu a rheoli seilwaith SDCau a holl elfennau draenio yn cael eu cytuno gyda'r awdurdod lleol neu'r ymgymerwr carthffosiaeth ar y cam cynllunio er mwyn sicrhau bod y seilwaith yn cael ei gynnal yn briodol a'i fod yn gweithio'n effeithiol ar gyfer oes y cynllun.

Gellir defnyddio SDCau hefyd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau draenio dŵr wyneb mewn ardaloedd datblygedig sydd eisoes yn bodoli. Gall ôl-osod SDCau wella'r amgylchedd i bobl leol, darparu mwy o fannau gwyrdd a mannau hamdden a lleihau'r perygl o lifogydd. Gall leddfu'r pwysau ar systemau draenio presennol, gan greu arbedion ar waith cynnal a chadw neu uwchraddio. Mae hefyd yn darparu cyfle i ymgysylltu â'r gymuned leol ynglŷn â'i rôl yn y gwaith o reoli draeniau a dŵr. Mae SDCau yn elfen ganolog o'r gwaith o reoli dŵr wyneb yn y dyfodol a chynnal dulliau arloesol o ddraenio dŵr wyneb yng Nghymru.

I gefnogi hyn, byddwn yn disgwyl i ymgymerwyr carthffosiaeth ac awdurdodau priffyrdd hwyluso'r defnydd o systemau naturiol mewn datblygiadau seilwaith ac adfer neu greu nodweddion dŵr, megis gwlyptiroedd a sianeli naturiol afonydd, lle bydd buddiannau i fywyd gwyllt, cymunedau a chwsmeriaid.

Ar gyfer datblygiadau newydd, mae dull sy'n integreiddio rheoli cylchoedd dŵr wrth gynllunio datblygiadau wedi'i roi ar waith am y tro cyntaf yn Awstralia[32]. Mae'r dull hwn, a elwir yn Gynllunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr yn defnyddio egwyddorion SDCau, ac yn adeiladu ar egwyddorion gwasanaethau ecosystemau i leihau'r defnydd o ddŵr, lleihau'r perygl o lifogydd a gwella ansawdd dŵr. Byddwn yn gweithio gydag eraill yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i nodi sut y gellir defnyddio Cynllunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr yng Nghymru.

## Cyfrifoldeb am y seilwaith draenio a charthffosiaeth

Mae systemau draenio wedi datblygu dros amser ac mae hyn wedi golygu bod amryw o unigolion a sefydliadau yn berchen arnynt ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb drostynt. Mewn ardaloedd datblygedig, mae gan yr awdurdodau lleol a'r ymgymerwr carthffosiaeth gyfrifoldebau penodol. Mewn ardaloedd gwledig, cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw draenio yn aml.

Awdurdodau priffyrdd sy'n gyfrifol am ddraenio priffyrdd. Mae'r berthynas rhwng draeniau priffyrdd a'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus yn gymhleth, gyda rhai draeniau priffyrdd yn cludo dŵr wyneb o systemau cyhoeddus a rhai draeniau priffyrdd yn rhyddhau dŵr i garthffosydd cyhoeddus. Mae priffyrdd hefyd yn sianeli pwysig ar gyfer llygredd gwasgaredig. Mae deall y rôl y maent yn ei chwarae yn y system ddraenio yn hanfodol ar gyfer datblygu systemau draenio cynaliadwy ar raddfa dalgylch.



[32] http://www.melbournewater.com.au/wsud

Mae deddfwriaethau gwahanol yn rheoli rolau amrywiol Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, awdurdodau priffyrdd ac ymgymerwyr carthffosiaeth. Gan weithio gyda'r holl bartïon perthnasol, byddwn yn adolygu deddfwriaeth ac arferion sy'n gysylltiedig â draenio, gan ganolbwyntio ar ddŵr wyneb, draeniau priffyrdd ac asedau amddifad.

Rydym am weld a yw'r trefniadau presennol yn addas i'r diben neu a allwn wella trefniadau llywodraethu. Ein nod yw darparu eglurder ynghylch cyfrifoldebau, gwell cynllunio a chydweithio ar gyfer gosod a rheoli'r asedau hyn. Bydd hyn hefyd yn cefnogi dull y SDCau.

Yn rhan o'r adolygiad hwn ar ddraenio, byddwn hefyd yn asesu gweithrediad y broses ar gyfer mabwysiadu carthffosydd cyhoeddus a gyflwynwyd ym mis Hydref 2012 a'r Safonau Gweinidogol cysylltiedig. Yna, byddwn yn ystyried a oes angen canllawiau statudol o dan Adran 106B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991[33].

## Carthffosydd cyhoeddus

Mae camau gweithredu i atal a rheoli llygredd dŵr o ollyngiadau carthion yn hanfodol ar gyfer diogelu ansawdd dŵr. Felly, rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cwmnïau dŵr weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ein systemau carthffosiaeth yn addas i'r diben. Mae hyn yn golygu lleihau nifer y colledion o orlif carthffosiaeth cyfunol a sicrhau bod effaith rhyddhau carthion yn cael ei gadw cyn lleied â phosibl yn unol â'r safonau a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol.

## Carthffosydd wedi'u cam-gysylltu

Mae carthffosydd wedi'u cam-gysylltu yn achosi llygredd mewn cyrsiau dŵr, dŵr daear a dyfroedd arfordirol ac yn gallu arwain at garthffosydd yn gorlifo. Mae gan nifer o ardaloedd ddwy system ddraenio ar wahân. Carthffos dŵr wyneb yw un, sy'n dal dŵr glaw sy'n rhedeg oddi ar doeau, rhodfeydd a ffyrdd ac yn draenio i mewn i afonydd a nentydd. Y llall yw'r garthffos fudr, sy'n casglu dŵr gwastraff ac yn ei ddraenio i weithfeydd trin carthion lle mae'r dŵr gwastraff yn cael ei drin a'i lanhau cyn cael ei ryddhau i'r amgylchedd.

Mae camgysylltiad yn digwydd pan fydd pibell ddraenio ar gyfer un math o ddŵr yn cael ei gysylltu i'r system garthffos anghywir. Bydd cysylltu draeniau budr â charthffos dŵr wyneb yn achosi llygredd. Gall dŵr wyneb ffo sydd wedi'i gysylltu â draen budr achosi i'r garthffos orlifo, gan sbarduno llifogydd a gorlifiadau carthion heb eu trin i mewn i afonydd a dyfroedd arfordirol a'r gwaith trin carthffosiaeth.

Mae mynd i'r afael â'r broblem hon yn galw am weithio ar y cyd rhwng ymgymerwyr carthffosiaeth, awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal â nodi a chywiro camgysylltiadau, mae hefyd angen addysg i sicrhau bod deiliaid tai, plymwyr ac adeiladwyr yn deall y broblem ac yn gwybod beth i'w wneud i osgoi gwneud y broblem yn waeth. Er mwyn lleihau llygredd yn yr amgylchedd ddŵr wedi'i achosi gan garthffosydd wedi'u cam-gysylltu, byddwn yn canolbwyntio ar wella'r ffordd y mae camgysylltiadau o gartrefi yn cael eu canfod a'u datrys.

[33] Trefniadau mabwysiadu ar gyfer carthffosydd a draeniau ochrol - http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/sewers/a optionarrangements/?skip=1&lang=cy

Fel rhan o’n hadolygiad o’r ddeddfwriaeth ar ddraenio, byddwn yn ystyried newidiadau posibl yn y gyfraith a fyddai’n symleiddio’r broses o gywiro camgysylltiadau.

## Carthffosiaeth breifat

Mae’r rhan fwyaf o dai Cymru yn cael eu gwasanaethu gan systemau draenio cyhoeddus. Fodd bynnag, ceir cymaint â 195,000 o dai yng Nghymru, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, sydd heb eu cysylltu â charthffosydd cyhoeddus.

Mae systemau carthffosiaeth preifat fel arfer yn gwasanaethu un eiddo neu nifer fach o eiddo. Defnyddir tri math cyffredin o system – gweithfeydd bach sy’n trin carthion, tanciau carthion a charthbyllau.

Mae’n rhaid cofrestru gweithfeydd trin carthion bach a thanciau carthion gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Pan nad yw carthffos gyhoeddus yn economaidd mae’r rhain yn gallu cynnig ateb hirdymor boddhaol, ar yr amod fod y perchnogion o ddifrif ynglŷn â’u cyfrifoldebau cynnal a chadw. Mae systemau amgen, ynni isel, megis toiledau compost neu systemau gwely cyrs hefyd yn addas ar gyfer datblygiadau bach.

Byddwn yn cynorthwyo perchnogion drwy weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu canllawiau ar sut i gynnal a chadw tanciau carthion. Byddwn hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol, sydd â dyletswydd i sicrhau bod perchnogion systemau carthffosiaeth preifat yn eu cynnal a’u cadw, er mwyn atal perygl i iechyd y cyhoedd neu’r amgylchedd.

Gall perchnogion eiddo mewn ardaloedd gwledig wneud cais am ddarpariaeth ddraenio o dan Adran 101A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac mae’n rhaid i’r ymgymerwr carthffosiaeth asesu’r cais yn erbyn meini prawf penodol. Os yw’r ymgymerwr yn gwrthod y cais, yr Arolygiaeth Gynllunio sy’n gyfrifol am ddyfarnu ar unrhyw anghydfod. Gall proses Adran 101A fod yn hir a chymhleth, ac mae adborth gan randdeiliaid wedi dynodi y gallai gwelliannau i’r canllawiau statudol helpu i leihau nifer yr achosion o anghydfod a chyflymu’r broses. Byddwn yn diweddaru ac yn ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig i ymgymerwyr carthffosiaeth ac yn gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth i randdeiliaid ac ymgeiswyr eraill. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellid diwygio Adran 101A er mwyn gwella ei gweithrediad.

## Prif gamau gweithredu

- Byddwn yn sefydlu fframwaith i nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, y data neu'r broses reoleiddio ac yn ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau bod gan ymgymerwyr carthffosiaeth, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yr adnoddau cywir i'w helpu i reoli ein systemau draenio a charthffosiaeth. Yn benodol, bydd yn rhaid i hyn nodi a gosod mesurau ar gyfer sicrhau canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol.
- Byddwn yn edrych ar opsiynau i weithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n dweud bod angen i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion SDCau sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol.
- Byddwn yn cyhoeddi safonau cenedlaethol interim ar sail gynghorol nes y byddwn yn cychwyn ar Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr, datblygwyr eiddo, awdurdodau lleol a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddangos eu bod wedi ystyried cyngor cynllunio Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu a Pherygl o Lifogydd ac i dreialu'r safonau, felly os oes angen gellir eu hadolygu cyn iddynt gael eu gweithredu ar sail statudol.
- Byddwn yn cynnal adolygiad o berchnogaeth draeniau ar hyn o bryd a deddfwriaeth gysylltiedig, gan roi pwyslais arbennig ar ddŵr wyneb, asedau amddifad a chamgysylltiadau draenio. Bydd yr adolygiad yn cynnwys gweithredu'r broses orfodol ar gyfer mabwysiadu carthffosiaeth ac effeithiolrwydd Safonau Adeiladu Gweinidogion 2012.
- Byddwn yn cefnogi perchnogion systemau carthffosiaeth preifat drwy weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu canllawiau ar gynnal a chadw tanciau carthion. Byddwn hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol sydd â dyletswydd i sicrhau bod perchnogion systemau carthffosiaeth preifat yn eu cynnal a'u cadw er mwyn atal bygythiad i iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd.
- Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig ar gynlluniau carthffosiaeth ar gyfer cymunedau gwledig o dan Adran 101A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac yn eu gweithredu, ac yn ystyried deddfu i symleiddio'r broses.



© Hawlfraint y Goron (2015) Croeso Cymru

## 4.6 Cefnogi Dulliau Cyflawni

### Prif Faterion

#### Mecanweithiau cyflawni

Mae nifer o fecanweithiau a nodwyd gennym sy'n allweddol i ddatblygu ein dull integredig o reoli dŵr.

Mae'r Strategaeth hon yn cael ei chefnogi gan gynllun gweithredu (Atodiad A) a fydd yn ffurfio sail i'n rhaglen waith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar ein cynnydd yn y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth hon yn flynyddol.

Cafodd Fforwm Dŵr Cymru ei ffurfio i gefnogi cyflawniad ein hagenda dŵr. Rôl y Fforwm yw:

- ymgysylltu â sefydliadau allweddol, gan gynnwys cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr, ar gynllunio'r cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli dŵr yng Nghymru.
- hwyluso trafodaethau agored a gonest ar bob agwedd sy'n gysylltiedig â rheolaeth strategol ar ddŵr Cymru
- cynnwys ein partneriaid cyflenwi yn y gwaith er mwyn gallu cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth hon. Bydd hyn yn cynnwys ein cynorthwyo i bennu ein blaenoriaethau a datblygu a chyflawni ein hymrwymiadau polisi.

Byddwn yn adolygu cylch gwaith ac aelodaeth Fforwm Dŵr Cymru yn rheolaidd i sicrhau ffocws ar yr heriau ehangach o ran rheoli dŵr yng Nghymru a chyflawni ein Strategaeth.

Yn ogystal ag ymgysylltiad uniongyrchol â phartneriaid drwy fforwm rhanddeiliaid presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Fforwm Dŵr Cymru, mae ein rheoleiddwyr, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau ynglŷn â materion rheoli dŵr. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adeiladu ar y pwyslais hwn ar ymgysylltiad lleol a chynnwys cymunedau yn y gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau. Nid mater o wneud rhywbeth newydd yw hyn o anghenraid, ond o gydnabod y pethau hynny yr ydym yn eu gwneud yn dda ac adeiladu arnynt.

#### Cynlluniau cymorth ariannol

Mae rheoli tir yn wael yn un o brif achosion llygredd dŵr gwasgaredig. Roedd Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 yn cefnogi ymyriadau rheoli tir gyda'r nod o wella ansawdd dŵr a lleihau perygl llifogydd. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ein cynigion terfynol ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020[34] ym mis Chwefror 2014. Rhagwelir y bydd cyfanswm y gyllideb ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn £953m dros gyfnod y rhaglen, gyda 60% (£572m) o arian dangosol yn cael ei ddyrannu i fesurau ar sail ardal gyda chyfeiriad penodol at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Roedd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn cynnwys cyngor ar faterion yn ymwneud

[34] www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/rural-development-plan-for-wales-2014-2020/?lang=en

â dŵr megis rheoli tir a buarthau ffermydd. Er enghraifft, gall arfer da wrth fwydo a dyfrio da byw atal difrod i dir a glannau nentydd a fuasai'n achosi erydu a llygredd fel arall. Yn ogystal, rhoddir sylw i arferion da o ran storio gwastraff, cynllunio rheoli maetholion a chynhyrchu silwair sydd hefyd yn cyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd dŵr. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig a ddatblygwyd ar ôl yr ymgynghoriad yn cynnwys mecanwaith cyfalaf a refeniw cymysg i gefnogi gwelliannau fferm a choedwigaeth sy'n gysylltiedig â safonau lles a safonau amgylcheddol, ymhlith pethau eraill. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd, bydd cymorth yn cael ei ymestyn i fusnesau nad ydynt yn seiliedig ar y tir ac mae'n bosibl y ceir ymyriadau i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â llygredd o gloddfeydd metel.

Bydd cynllun Glastir Uwch[35] yn parhau i weithredu fel y prif ddull ar gyfer targedu gweithgarwch er mwyn cyflawni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd yn helpu i wella ansawdd dŵr a dulliau rheoli dŵr, drwy fynd i'r afael â materion ar hyd cwrs dŵr, yn hytrach na chael eu cyfyngu gan ddull o weithredu ar sail ffermydd unigol. Bydd hyn yn cael ei ategu gan welliannau i'r seilwaith, wedi'u cyflawni drwy'r cynllun grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy. Bydd Cynllun Creu Coetiroedd Glastir hefyd yn darparu cyfleoedd i dirfeddianwyr gyfrannu at reoli dŵr a lliniaru arferion defnydd tir amaethyddol drwy dargedu'r gwaith o blannu coetiroedd.

## Fframwaith rheoleiddio clir a thryloyw i Gymru

Mae rôl y rheoleiddwyr yn annog a chymell cwmnïau dŵr i gyflawni ar gyfer eu cwsmeriaid a rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol yn ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer dŵr yng Nghymru. Rydym yn disgwyl i'n rheoleiddwyr weithio'n rhagweithiol ac yn adeiladol gyda'i gilydd ac â phartneriaid allweddol eraill i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn effeithiol, er mwyn lleihau beichiau rheoleiddio lle bo hynny'n briodol a helpu i weithredu amcanion y Strategaeth hon.

Rydym wedi cyhoeddi Canllaw Cymdeithasol ac Economaidd ar gyfer Ofwat sy'n nodi ein polisi yn y maes hwn, polisi y bydd Ofwat yn ei ystyried wrth lunio cynlluniau busnes cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Ein nod yw darparu Datganiad Polisi Strategol ar gyfer Ofwat yn lle'r Canllaw Cymdeithasol ac Amgylcheddol. Bydd y Datganiad Polisi Strategol yn cyflwyno fframwaith strategol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau polisi a fydd yn sail i waith Ofwat. Bydd yn nodi sut y disgwyliwn i Ofwat ystyried effeithiau gwahaniaethau rhwng polisïau dŵr Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chasglu tystiolaeth briodol i lywio penderfyniadau rheoleiddio effeithiol a phenderfyniadau polisi ehangach. Yn unol â'r Principles of Economic Regulation[36] bydd y canllaw hwn yn ceisio darparu darlun hirdymor o flaenoriaethau trosfwaol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu sefydlogrwydd i Ofwat a'r diwydiant, ac ni fydd yn cael ei ddiweddaru fwy nag unwaith yn ystod tymor y Cynulliad.

[35] Cynllun Glastir Uwch – http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/schemes/glastir/glastir-advanced/?skip=1&lang=cy

[36] Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau- Principles of Economic Regulation – http://www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/improving-regulatory-delivery/principles-for-economic-regulation

Rydym yn awyddus i weld mwy o arloesedd yn y sector dŵr, er mwyn canfod atebion sy'n fwy effeithlon a chost-effeithiol. Rydym yn cydnabod pa mor hollbwysig yw sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu a bod rhwymedigaethau amgylcheddol yn cael eu cyflawni, ond rydym yn awyddus i sicrhau bod y rheoleiddwyr yn darparu cymhelliant ac anogaeth ar gyfer arloesedd o fewn strwythur presennol y sector dŵr, sy'n cael ei ystyried yn aml fel strwythur gwrth-risg. Rydym yn disgwyl i fframwaith cymhellion Ofwat yn y dyfodol gynnig y cydbwysedd cywir rhwng gwobrau a chosbau yng nghyd-destun ymagwedd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ac sy'n cydnabod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r amgylchiadau yng Nghymru.

Mae cyflawni ein cynigion yn ddibynnol ar reoleiddio effeithiol. Rydym yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru, ond mae wedi'i fframio mewn cyfres gymhleth o gyfrifoldebau rheoliadol a gweithredol. Byddwn yn rhoi camau ar waith i ddatblygu a gweithredu system reoliadol glir a chydlynol – yn economaidd ac yn amgylcheddol – sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n cyflawni gofynion pobl a pholisïau Cymru. Byddwn yn sicrhau bod gennym system reoleiddio deg ac effeithiol, nad yw'n rhoi beichiau diangen ar fusnesau a defnyddwyr perthnasol. Rydym yn credu y dylai newidiadau i'r amgylchedd rheoliadol fod o fudd i bob cwsmer yng Nghymru, gan gofio ein nod o ddull mwy integredig o reoli ein hadnoddau dŵr.

## Diwygio cyfansoddiadol

Ein hamcanion yw sicrhau bod y ffiniau rheoliadol ar gyfer dŵr a charthffosiaeth yn cyd-fynd â'r ffin ddaearyddol rhwng Cymru a Lloegr. Byddwn yn gweithio'n ddygn i drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â phob mater sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth ac yn ceisio diddymu grym unochrog Llywodraeth y DU i ymyrryd mewn perthynas ag adnoddau dŵr yng Nghymru.  Rydym am symud i setliad newydd ar gyfer swyddogaethau presennol Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a throsglwyddo'r cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei hategu gan ganfyddiadau Comisiwn Silk ar Bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol[37].

Bydd sicrhau bod proses reoleiddio gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yn cyd-fynd â'r ffin ddaearyddol yn ein galluogi i integreiddio dŵr yn well o fewn ein dull o reoli adnoddau naturiol, gan sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd mae adnoddau naturiol Cymru yn eu cynnig. Bydd mabwysiadu'r ffin ddaearyddol fel y ffin reoleiddio hefyd yn cynnig eglurder o ran atebolrwydd i ddefnyddwyr, cyflenwyr dŵr, llunwyr polisïau a deddfwyr. Byddai symud tuag at raniad daearyddol yn sicrhau y byddai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r holl faterion sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth, gan gynnwys trwyddedu a phenodi a rheoleiddio ymgymerwyr dŵr. Byddai defnyddio'r ffin ddaearyddol gyda Lloegr ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaethau dŵr yn cyd-fynd â'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n bodoli ar gyfer Deddfau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

[37] Comisiwn Silk – http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/

Er mwyn ein galluogi i gael dealltwriaeth well o'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â symud o'r setliad presennol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr, i gynnal asesiad manwl o'r materion y bydd angen mynd i'r afael â nhw gyda golwg ar symud ymlaen at setliad newydd.

## Cwmnïau dŵr arloesol a rhagweithiol

Rydym yn disgwyl i'n cwmnïau dŵr fod yn arloesol ac yn rhagweithiol wrth weithio gydag eraill, gan gynnwys rheoleiddwyr, er mwyn ceisio gwella gwasanaethau a helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth hon.

Mae angen ymchwil a thystiolaeth dda yn sail i sector dŵr llwyddiannus ac arloesol. Gyda'r wybodaeth hon, gall y sector ddatblygu ffyrdd gwell o fynd i'r afael â materion sy'n bwysig yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol. Mae rhaglenni monitro effeithiol yn hollbwysig, er mwyn sicrhau bod mesurau amgylcheddol yn cael eu cyflawni, yn ogystal â sicrhau buddsoddiadau wedi eu targedu'n briodol ar gyfer gwaith cynnal a gwella yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod materion yn cael eu datrys yn gynharach, pan fydd yn fwy cost-effeithiol i wneud hynny, yn hytrach na'u hanwybyddu nes y bydd problem ddifrifol yn digwydd, gan arwain at  gamau unioni mwy costus.

Rydym yn disgwyl i'r sector dŵr nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu gyda sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt lle bo'n briodol. Dylai cwmnïau geisio rhannu arfer da a dysgu gan eraill wrth ddatblygu gwyddoniaeth a thechnoleg briodol a gweithredu arloesedd. Yn benodol, dylent archwilio dulliau arloesol a fydd yn lleihau eu costau gweithredu, yn cynyddu gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cefnogi dulliau rheoli adnoddau naturiol a sicrhau bod arferion sy'n fwy effeithlon o ran y defnydd o adnoddau yn cael eu mabwysiadau yn eu gwaith.

Yn ogystal â sicrhau gwasanaethau rhagorol i'w cwsmeriaid, dylai cwmnïau dŵr yng Nghymru fynd ati'n rhagweithiol i annog a chefnogi eu cwsmeriaid busnes a domestig, er mwyn bod yn fwy effeithlon o ran eu defnydd o ddŵr. Rydym hefyd yn disgwyl iddynt chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu mesurau i gefnogi eu cwsmeriaid mwyaf agored i niwed, o fewn y fframwaith polisi trosfwaol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Cydnerthedd

Mae cyflenwad diogel a sicr o ddŵr yn galw am fuddsoddiad a gwaith cynnal a chadw ar rwydwaith y seilwaith, gan adeiladu gallu o'i fewn i wrthsefyll peryglon naturiol ac effeithiau newid hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau amddiffyniad digonol i bobl a'n hadnoddau naturiol. Rydym am sicrhau bod y system yn parhau i fod yn gadarn, fod mesurau diogelwch ar waith a bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Mae llifogydd, cyfnodau hir o dywydd sych, a mathau eraill o dywydd eithafol a brofwyd gennym ar draws y DU yn y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod angen i'n cyflenwad dŵr a'r gwasanaethau a rhwydweithiau dŵr gwastraff allu parhau i weithredu er gwaethaf digwyddiadau o'r fath. Mae hyn hefyd wedi cynyddu pwysigrwydd cynllunio'n effeithiol ar gyfer argyfyngau a chydnerthedd yn y sector dŵr.

Mae gan y sector dŵr ran bwysig i'w chwarae yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac rydym am gael diwydiant dŵr sy'n deall ei effaith ar y newid yn yr hinsawdd. Mae Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru yn gosod targedau clir ar gyfer lleihau'r allyriadau hyn yn ogystal â fframwaith i helpu i wneud yn siŵr fod Cymru yn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gall y cwmnïau dŵr chwarae rhan bwysig yn yr agenda lleihau allyriadau a'r agenda ymaddasu drwy leihau eu defnydd o ddŵr, cynhyrchu eu hynni eu hunain a darparu cyngor ar ddŵr ac ynni i gartrefi. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr adlewyrchu lleihad mewn allyriadau ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn eu Cynlluniau Rheoli Asedau.

Cyflwynodd Deddf Dŵr 2014 ddyletswydd sylfaenol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofwat sicrhau cydnerthedd hirdymor systemau dŵr a charthffosiaeth a darparu gwasanaethau i gwsmeriaid gan ystyried pwysau amgylcheddol, twf yn y boblogaeth a newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cynllunio a buddsoddi hirdymor addas gan gwmnïau dŵr perthnasol. Hefyd, mae disgwyl i Ofwat sicrhau bod gan gwmnïau dŵr ystod o fesurau i reoli adnoddau dŵr mewn ffyrdd cynaliadwy, a chynyddu effeithlonrwydd o ran defnydd dŵr a lleihau'r galw am ddŵr er mwyn lleihau'r pwysau ar adnoddau dŵr.

Wrth fwrw ymlaen â'i ddyletswydd i sicrhau cydnerthedd rydym yn disgwyl i Ofwat ystyried y ddyletswydd i sicrhau cydnerthedd sy'n cael ei chynnwys ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) ac sy'n rhoi ffocws ar yr ecosystem yn ei chyfanrwydd, yn hytrach nag ar elfennau unigol, gan uno'r gwahanol faterion ac agweddau ar yr amgylchedd.

Rydym yn bwriadu dyrchafu dyletswydd eilaidd Ofwat ar hyn o bryd mewn perthynas â datblygu cynaliadwy i statws sylfaenol. Datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, ac i'r perwyl hwnnw, credwn ei bod yn hollbwysig iddi fod yn ddyletswydd sylfaenol i Ofwat. Gallai newid trefn dyletswyddau statudol Ofwat drwy ddyrchafu'r ddyletswydd i gyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy o ddyletswydd eilaidd i ddyletswydd sylfaenol wella'r broses o gyflawni blaenoriaethau hirdymor ar gyfer y diwydiant dŵr, ac mae'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Mae cwmnïau dŵr yn ymatebwyr categori 2 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac mae'n ofynnol iddynt gydweithredu a rhannu gwybodaeth mewn argyfwng. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau i ddatblygu cynlluniau sy'n nodi asedau strategol, yn ystyried beth fyddai'n digwydd pe bai'r cyflenwad yn cael ei golli a'r ddarpariaeth o gyflenwadau amgen. Byddwn yn cyhoeddi Cyfarwyddiadau a Chanllawiau Diogelwch a Mesurau Argyfwng fel y bo'n briodol ac yn mynd ati i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhain.

Cwmnïau dŵr yw perchen-weithredwyr llawer o gronfeydd dŵr Cymru. Er bod record ddiogelwch cronfeydd dŵr yn ardderchog, maent yn dal i beri risg bosibl sydd angen ei rheoli'n effeithiol. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr, perchnogion cronfeydd dŵr eraill ac ymatebwyr i sicrhau bod trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng yn eu lle i reoli'r risgiau hyn. Byddwn yn rhoi deddfwriaeth ychwanegol ar waith i sicrhau diogelwch cronfeydd dŵr yn y dyfodol yng Nghymru.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd a Rheoli Risg Erydu Arfordirol ar gyfer Cymru yn cadarnhau dull rheoli risg Llywodraeth Cymru o ymdrin â phob math o berygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys llifogydd dŵr wyneb.

## Cefnogi arloesedd

Mae cefnogi arloesedd, yn arbennig yn y diwydiant dŵr, yn un o'n prif flaenoriaethau. Rydym eisoes wedi cyflwyno ein disgwyliadau i'n rheoleiddwyr, ac i Ofwat yn arbennig, o ran ysgogi arloesedd yn y sector hwn. Rydym hefyd wedi datgan ein disgwyliad clir y dylai arloesedd fod yn elfen ganolog o'r ymagwedd sy'n cael ei mabwysiadu gan y sector dŵr yng Nghymru a'n cwmnïau dŵr yn arbennig.

Byddwn yn cefnogi arloesedd yn y sector dŵr drwy ein strategaeth wyddoniaeth, Gwyddoniaeth i Gymru[38] a'n strategaeth arloesedd, Arloesi Cymru[39]. Mae'r strategaethau hyn yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd, y prif fentrau y byddwn yn eu cyflwyno a sut y byddwn yn mesur llwyddiant.

## Cymorth busnes ar draws y sector

Mae twf gwyrdd yn elfen hollbwysig o ymdrech Llywodraeth Cymru i greu twf economaidd a chreu swyddi sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac sy'n gynhwysol yn gymdeithasol. Mae'r economi werdd yn elfen bwysig o dwf gwyrdd ac mae'n disgrifio is-economi Cymru.

Mae gan Gymru economi werdd sefydledig sydd eisoes yn tyfu[40], gan gynnwys clwstwr bychan ond ffyniannus o gwmnïau yn y sector dŵr a'i gadwyn gyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynorthwyo'r cwmnïau hyn i gyflawni'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan y Strategaeth hon.

Mae ynni, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, yn ogystal ag adeiladu yn sectorau allweddol i Lywodraeth Cymru a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau yn y sectorau hyn a sectorau cysylltiedig, i'n galluogi i ddatblygu ein harbenigedd presennol ymhellach. Bydd ein tîm ymroddedig o Reolwyr Datblygu Busnes yn gweithio'n uniongyrchol gyda chwmnïau i'w cynghori a'u cynorthwyo mewn nifer o feysydd o ehangu busnes i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, datblygu rhwydweithiau lleol ac archwilio marchnadoedd rhyngwladol[41]. Byddwn yn parhau i weithio ar draws Llywodraeth Cymru i gynorthwyo busnesau yng Nghymru i wneud y defnydd gorau o ddŵr ac ymateb i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan ddŵr yn awr ac yn y dyfodol.

## Ymgysylltiad ac addysg

Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda'n rhanddeiliaid ac yn ceisio cynnwys pobl Cymru er mwyn iddynt ddeall, addysgu a hyrwyddo ffordd newydd o feddwl a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein dull newydd o reoli adnoddau naturiol a bodloni ein nodau llesiant a'n hegwyddorion datblygu cynaliadwy.

[38] Llywodraeth Cymru – Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru – http://gov.wales/topics/businessandeconomy/csaw/?skip=1&lang=cy

[39] Llywodraeth Cymru – Arloesi Cymru – http://gov.wales/topics/businessandeconomy/innovation/innovation-strategy-wales/?skip=1&lang=cy

[40] Comisiwn Silk - Cyfrannodd gwerthiannau yn yr economi werdd yng Nghymru £5.5 biliwn i economi Cymru yn 2011/12, gan gefnogi dros 41,000 o swyddi. Yn ystod y dirwasgiad rhwng 2009/10 a 2011/12, cynyddodd swyddi oddeutu 2.4% a gwerthiannau oddeutu 9.3%.

[41] http://www.business.wales.gov.uk/cy

## Y sgiliau cywir i weithredu'r Strategaeth

Byddwn yn ceisio adeiladu ar y sgiliau a'r arbenigedd sydd gennym yn y sector dŵr yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn datblygu lefel uchel o arbenigedd a fydd yn cefnogi busnesau yn ogystal â gofynion rheoleiddio

Mae gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg – a elwir yn bynciau STEM – yn bwysig i bawb, ond mae ganddynt rôl allweddol yn y sector dŵr. Rydym wedi sefydlu'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol er mwyn helpu i gynyddu diddordeb plant ac oedolion yn y pynciau hyn. Rydym yn awyddus i gynyddu nifer y bobl sy'n astudio pynciau STEM, ac yna'n dewis gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM ar bob lefel. Mae'r prosiect hwn yn rhan o'n strategaeth wyddoniaeth, Gwyddoniaeth i Gymru.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau academaidd (Er enghraifft, Hyfforddiant ar Gynaliadwyedd yr Amgylchedd Adeiledig (BEST), partneriaethau sgiliau rhanbarthol, a'r Cyngor Sgiliau Ynni a Chyfleustodau) a'r sector sgiliau i sicrhau bod gennym gyfleoedd addysg a hyfforddiant penodol a fydd yn diwallu ein hanghenion rheoli dŵr yn y dyfodol ac yn annog a gwella cyfleoedd busnes a'r farchnad yng Nghymru.

## Fframwaith tystiolaeth a gwerthuso

Bydd ein dull o gyflwyno'r strategaeth hon yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae ein proses datblygu polisi yn seiliedig ar ymchwil a dadansoddiad trylwyr o dystiolaeth. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr a rheoleiddwyr roi'r un pwyslais ar gyflawni gwaith ymchwil perthnasol a chasglu tystiolaeth i lywio eu gwaith a'u prosesau cynllunio busnes. Rydym yn ystyried hyn yn elfen hollbwysig o gyflawni'r canlyniadau cywir i Gymru.

Byddwn yn datblygu fframwaith tystiolaeth a gwerthuso i gyd-fynd â'r Strategaeth. Bydd y fframwaith yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rheoleiddwyr, y diwydiant dŵr, y byd academaidd a phartïon perthnasol eraill sydd â rôl allweddol o ran comisiynu neu wneud gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth. Bydd y blaenoriaethau allweddol a'r canlyniadau strategol ym Mhennod 2 y Strategaeth hon yn llywio'r fframwaith.

Yn benodol, bydd y fframwaith yn nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth neu'r data ac yn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain, gan ystyried ymarferoldeb, cost a defnyddioldeb casglu gwybodaeth ychwanegol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth ac yn llywio'r prosesau o'i hadolygu a'i gwerthuso.

Bydd y fframwaith hefyd yn ystyried y dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd cyffredinol y strategaeth. Mae yna nifer o ddangosyddion arwyddocaol eisoes wedi'u sefydlu ond byddwn yn asesu, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein fframwaith tystiolaeth a gwerthuso, a oes angen i ni fireinio'r dangosyddion hyn neu ddatblygu dangosyddion newydd.

## Prif gamau gweithredu

- Byddwn yn adolygu cylch gwaith, aelodaeth a ffocws Fforwm Dŵr Cymru i sicrhau ffocws ar yr heriau ehangach ar gyfer rheoli dŵr yng Nghymru a chyflawni'r Strategaeth.
- Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar ein cynnydd yn cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth hon yn flynyddol.
- Byddwn yn cyflwyno Datganiad Polisi Strategol statudol yn lle'r Canllaw Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat, a bydd y Datganiad yn gosod fframwaith strategol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau polisi a fydd yn sail i waith Ofwat.
- Byddwn yn sicrhau bod gennym drefn reoleiddio deg ac effeithiol nad yw'n gosod beichiau diangen ar fusnesau a defnyddwyr perthnasol. Credwn y dylai newidiadau i'r amgylchedd rheoleiddio fod o fudd i bob cwsmer yng Nghymru, gan roi sylw i'n hamcan o arfer dull mwy integredig o reoli ein hadnoddau dŵr.
- Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr, byddwn yn cynnal asesiad manwl o'r materion y bydd angen rhoi sylw iddynt gyda golwg ar symud tuag at setliad cyfansoddiadol newydd. Byddai'r setliad yn seiliedig ar gymhwysedd deddfwriaethol llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â dŵr a charthffosiaeth, i gyd-fynd â'r ffin ddaearyddol.
- Rydym yn bwriadu dyrchafu dyletswydd eilaidd bresennol Ofwat mewn perthynas â datblygu cynaliadwy i statws sylfaenol.
- Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr ac Ofwat i sicrhau bod gwasanaethau dŵr wedi lleihau eu hallyriadau ac yn gallu gwrthsefyll tywydd eithafol.
- Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau yn sectorau blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru, sef ynni, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, adeiladu a sectorau cysylltiedig er mwyn ein galluogi i adeiladu ar ein harbenigedd presennol, gyda phwyslais arbennig ar gynorthwyo busnesau yng Nghymru i wneud y defnydd gorau o'n dŵr ac ymateb i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan ddŵr yn awr ac yn y dyfodol.
- Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda'n rhanddeiliaid ac yn ceisio cynnwys pobl Cymru er mwyn iddynt ddeall, addysgu a hyrwyddo ffordd newydd o feddwl a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein dull newydd o reoli adnoddau naturiol a bodloni ein nodau llesiant a'n hegwyddor datblygu cynaliadwy.
- Byddwn yn ceisio adeiladu ar y sgiliau a'r profiad sydd gan Gymru yn y sector dŵr er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn datblygu lefel uchel o arbenigedd i gefnogi busnesau yn ogystal â gofynion rheoleiddio; cynyddu nifer y bobl sy'n astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg neu Fathemateg (STEM), ac yna'n dewis gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM ar bob lefel; ac yn gweithio gyda sefydliadau academaidd a'r sector sgiliau i sicrhau bod gennym gyfleoedd addysg a hyfforddiant penodol i ddiwallu ein hanghenion rheoli dŵr yn y dyfodol ac i annog a gwella cyfleoedd busnesau a'r farchnad yng Nghymru.
- Byddwn yn datblygu fframwaith tystiolaeth a gwerthuso i gyd-fynd â'r Strategaeth. Bydd y fframwaith yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rheoleiddwyr, y diwydiant dŵr, y byd academaidd a phartïon perthnasol eraill sydd â rôl allweddol o ran comisiynu neu wneud gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth. Bydd y blaenoriaethau allweddol a'r canlyniadau strategol ym Mhennod 2 y Strategaeth hon yn llywio'r fframwaith.
- Byddwn yn cyflawni gwaith ymchwil i nodi a deall gwerth economaidd ein dŵr yn y dyfodol, a'r manteision a'r cyfleoedd y gall eu cynnig yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

# Atodiad A – Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Ddŵr i Gymru

Mae'r cynllun gweithredu lefel uchel canlynol yn nodi pryd rydym yn disgwyl cyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth hon. Bydd ein polisïau yn cael eu datblygu dros nifer o amserlenni er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu ac yn gweithredu'r dull cywir ar gyfer Cymru sy'n cefnogi ein nodau llesiant a'n hegwyddor datblygu cynaliadwy.

Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid cyflawni ac yn eu cynnwys mewn gwaith i gyflawni camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth hon drwy'r Fforwm Dŵr. Bydd hyn yn cynnwys ein cynorthwyo i bennu ein blaenoriaethau a datblygu a chyflawni ein hymrwymiadau polisi.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth hon yn flynyddol. Caiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni 6 o flaenoriaethau polisi rhwng 2015 a 2018. Dyma'r blaenoriaethau:

- Cefnogi datblygiad y dull ar sail ardal o reoli adnoddau naturiol.
- Sicrhau mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth teg a fforddiadwy.
- Datganoli'r holl faterion sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth a chael gwared ar bŵer unochrog Llywodraeth y DU i ymyrryd mewn perthynas ag adnoddau dŵr yng Nghymru.
- Dull â mwy o ffocws i reoli carthffosiaeth a draenio a datblygu a gweithredu deddfwriaeth i gefnogi atebion cynaliadwy i broblemau draenio.
- Diwygio'r system trwyddedau tynnu dŵr yng Nghymru i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau dŵr yn awr ac yn y dyfodol.
- Adolygu arferion presennol a dulliau rheoleiddio, a'u newid lle bo'n briodol, i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig.

| Amserlen | Amcanion allweddol a chamau gweithredu ategol |
|---|---|
| Tymor byr – yn awr hyd at 2020 | **Dŵr ar gyfer Natur a Phobl:**<br>• Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r Paneli Cyswllt Rheoli Basn Afon fel dull o ehangu cyfranogiad cymunedau yn y gwaith o ddatblygu polisi dŵr ar lefel dalgylchoedd lleol. Bydd hyn yn helpu i ddarparu gwybodaeth, ac yn esblygu gyda'r gwaith o ddatblygu dull rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal.<br>• Byddwn yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu effeithiolrwydd eu darpariaeth bresennol o weithdrefnau cyngor a gorfodaeth atal llygredd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.<br>• Byddwn yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Gwasanaethau Cynghori Amaethyddol ein hunain i weithio gyda thirfeddianwyr er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o lygredd gwasgaredig a sut y gallant helpu i'w atal drwy ddulliau gwell o reoli tir.<br>• Byddwn yn ymgynghori ar Reoliadau i leihau llygredd olew yng Nghymru, ac yn eu gweithredu.<br>• Byddwn yn ystyried opsiynau i gefnogi datblygiad cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) ac yn adolygu deddfwriaeth os bydd angen er mwyn ein galluogi i sefydlu'r farchnad TWE yn y tymor hir.<br>• Byddwn yn cynnwys eithriadau tynnu dŵr yn y system drwyddedu.<br>**Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid:**<br>• Byddwn yn cyflawni gwaith ymchwil pellach a rhaglen waith i fynd i'r afael â thlodi dŵr, lleihau nifer y cartrefi sy'n cael trafferth i dalu eu biliau a sicrhau bod strwythurau ac opsiynau talu teg a hyblyg ar gyfer pob cwsmer yng Nghymru.<br>• Byddwn yn monitro defnydd o'r tariffau cymdeithasol a'u heffeithiolrwydd ac yn adolygu a diwygio ein canllawiau fel y bo'n briodol. |

- Byddwn yn datblygu mesurau ar gyfer asesu effeithiau Rheoliadau y Diwydiant Dŵr (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchnogion).

- Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd Rheoliadau y Diwydiant Dŵr (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchnogion) ac yn gwneud newidiadau lle bo'n briodol.

- Rydym yn disgwyl i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr arwain y gwaith o gasglu a dosbarthu gwybodaeth a chyngor mewn perthynas â fforddiadwyedd dŵr a rheoli dyledion, gan gynnwys creu cysylltiadau â mentrau ehangach ar gyfer trechu tlodi.

### Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed:

- Byddwn yn adolygu Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau.

### Systemau Draenio a Charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain Ganrif:

- Byddwn yn cyhoeddi safonau cenedlaethol interim ar sail gynghorol nes y byddwn yn cychwyn ar Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.
- Byddwn yn edrych ar opsiynau ar gyfer gweithredu Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion systemau draenio cynaliadwy (SDCau) sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol.

- Byddwn yn cynnal adolygiad o berchnogaeth draeniau yn gyfredol a deddfwriaeth gysylltiedig, gan roi pwyslais penodol ar ddŵr wyneb ac asedau amddifad, ac ar gamgysylltiadau draenio.

- Byddwn yn cefnogi perchnogion systemau carthffosiaeth preifat drwy weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu arweiniad ar gynnal a chadw tanciau carthion. Byddwn hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol sydd â dyletswydd i sicrhau bod perchnogion systemau carthffosiaeth preifat yn eu cynnal a'u cadw er mwyn atal bygythiad i iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd.

- Byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau diwygiedig ar gynlluniau carthffosiaeth ar gyfer cymunedau gwledig o dan Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac yn eu gweithredu, ac yn ystyried deddfu i symleiddio'r broses.

| | |
|---|---|
| | **Cefnogi Dulliau Cyflawni:**<br>• Byddwn yn cyflwyno Datganiad Polisi Strategol statudol yn lle'r Canllaw Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat, a bydd y datganiad yn gosod fframwaith strategol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau polisi a fydd yn sail i waith Ofwat.<br>• Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr, byddwn yn cynnal asesiad manwl o'r materion y bydd angen rhoi sylw iddynt gyda golwg ar symud tuag at setliad cyfansoddiadol newydd. Byddwn yn datblygu fframwaith tystiolaeth a gwerthuso i gyd-fynd â'r Strategaeth. |
| Tymor canolig – 2020 i 2025 | **Dŵr ar gyfer Natur a Phobl:**<br>• Rydym wedi ymrwymo i ddiwygio'r system drwyddedu tynnu dŵr er mwyn llywio ein polisïau yn y dyfodol a sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau dŵr.<br>**Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio a rheoli ein gwasanaethau dŵr:**<br>• Byddwn yn adolygu'r prosesau deddfwriaethol, rheoleiddio a chynllunio sy'n gysylltiedig â rheoli gwasanaethau dŵr.<br>• Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth.<br>**Darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid:**<br>• Byddwn yn ymchwilio i agweddau'r cyhoedd tuag at y defnydd a wneir o ddŵr a gwerth dŵr yng Nghymru, er mwyn helpu busnesau a chartrefi i wneud defnydd mwy effeithlon o ddŵr.<br>• Byddwn yn asesu ac yn ymgynghori ar opsiynau ar gyfer annog pobl i ddefnyddio llai o ddŵr ac yn cynnal ymchwiliadau pellach i gostau a manteision mesuryddion dŵr. |

| | |
|---|---|
| | **Systemau Draenio a Charthffosiaeth ar gyfer yr 21ain Ganrif:**<br>• Byddwn yn sefydlu fframwaith i nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, y data neu'r broses reoleiddio ac yn ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau bod gan ymgymerwyr carthffosiaeth, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yr adnoddau cywir i'w cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli ein systemau carthffosiaeth a draenio.<br>**Cefnogi Dulliau Cyflawni:**<br>• Rydym yn bwriadu dyrchafu dyletswydd eilaidd bresennol Ofwat mewn perthynas â datblygu cynaliadwy i statws sylfaenol.<br>• Byddwn yn cyflawni gwaith ymchwil i nodi a deall gwerth economaidd ein dŵr yn y dyfodol, a'r manteision a'r cyfleoedd y gall eu cynnig yn genedlaethol ac yn fyd-eang. |
| Tymor hir – 2025 a thu hwnt | **Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed:**<br>• Byddwn yn ymchwilio i gostau a manteision trosglwyddo perchnogaeth cyfran o'r pibellau cyflenwi dŵr sy'n eiddo preifat ar hyn o bryd, i'r cwmnïau cyflenwi dŵr. |
| Parhaus | **Dŵr ar gyfer Natur a Phobl:**<br>• Byddwn yn adolygu'r ddeddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol yn gyfnodol er mwyn nodi synergeddau, cyfleoedd ar gyfer symleiddio a chosteffeithlonrwydd, gan ystyried blaenoriaethau rheoli adnoddau naturiol a nodau llesiant.<br>• Byddwn yn gweithio gyda'r sectorau perthnasol i fynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig drwy ddealltwriaeth, adolygu a thrwy newid arferion a dulliau rheoleiddio presennol lle bo hynny'n briodol.<br>• Byddwn yn annog gweithredu cymunedol ar raddfa dalgylch drwy ddatganiadau ardal a ddatblygir gan Cyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau cydweithredol eraill sy'n ceisio gwella ansawdd dŵr yn eu hardaloedd. |

### Gwella'r ffordd rydym yn cynllunio a rheoli ein gwasanaethau dŵr:

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau gadw gollyngiadau ar y pwynt lle mae'r gost i'r amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas yn llai neu'r un faint â chost cael dŵr o ffynonellau eraill.

- Byddwn yn monitro costau a manteision diwygio'r farchnad, a fydd yn berthnasol i gwmnïau dŵr sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr o fis Ebrill 2017.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr fod yn arloesol wrth fynd ati i gynorthwyo eu cwsmeriaid i reoli dyledion.

- Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr gynnig opsiynau talu hyblyg heb unrhyw gost ychwanegol i'r cwsmer er mwyn sicrhau bod deiliaid tai sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n byw mewn tlodi yn gallu talu eu biliau dŵr.

### Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed:

- Byddwn yn gweithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i adolygu'r ddeddfwriaeth berthnasol ar ansawdd dŵr yfed yn gyson, a'i diwygio lle bo angen.
- Byddwn yn hyrwyddo cynlluniau cymeradwyo contractwyr, megis cynllun gosodwyr WaterSafe er mwyn gwella safon plymio yng Nghymru.
- Byddwn yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Dŵr ac Iechyd yng Nghymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau a strategaeth ymgysylltu i helpu perchnogion cyflenwadau preifat i wella eu dealltwriaeth o faterion iechyd y cyhoedd ac ansawdd dŵr yng Nghymru, a'u cyfrifoldebau statudol.

### Cefnogi Dulliau Cyflawni:

- Byddwn yn adolygu cylch gwaith ac aelodaeth Fforwm Dŵr Cymru yn rheolaidd i sicrhau ffocws ar yr heriau ehangach o ran rheoli dŵr yng Nghymru a chyflawni'r Strategaeth.

- Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar ein cynnydd yn cyflawni'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth hon yn flynyddol.

- Byddwn yn sicrhau bod gennym system reoleiddio deg ac effeithiol, nad yw'n rhoi beichiau diangen ar fusnesau a defnyddwyr perthnasol.
- Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr ac Ofwat i sicrhau bod gwasanaethau dŵr wedi lleihau eu hallyriadau ac yn gallu gwrthsefyll tywydd eithafol.
- Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda'n rhanddeiliaid ac yn ceisio cynnwys pobl Cymru er mwyn iddynt ddeall, addysgu a hyrwyddo ffordd newydd o feddwl a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein dull newydd o reoli adnoddau naturiol a bodloni ein nodau llesiant a'n hegwyddorion datblygu cynaliadwy.
- Byddwn yn ceisio adeiladu ar y sgiliau a'r profiad sydd gan Gymru yn y sector dŵr er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn datblygu lefel uchel o arbenigedd i gefnogi busnesau yn ogystal â gofynion rheoleiddio.

# Atodiad B – Geirfa

## Iaith Fyw: Iaith Byw, Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 2012-17

Gweledigaeth y Llywodraeth yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hynny, mae'r strategaeth yn anelu at weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Mae hon yn strategaeth bum mlynedd, o 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2017, ac mae'n disodli Iaith Pawb a gyhoeddwyd yn 2003.

## Rhaglen Ddatblygu'r Strategaeth Amaethyddol

Mae 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad – Creu Dyfodol Cadarn' yn nodi gweledigaeth eglur ar gyfer ffermio yng Nghymru sy'n ganolog i gefn gwlad cynaliadwy ac economi wledig broffidiol. Bydd yn galluogi'r diwydiant i wynebu heriau'r dyfodol a manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir mewn economi sy'n fwyfwy cyfnewidiol a byd-eang.

## Albion Water

Mae Albion Water yn darparu gwasanaethau dŵr i un cwsmer masnachol mawr yng Nghymru. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw Albion Water gan ei fod wedi ei leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

## Treulio Anaerobig

Mae treulio anaerobig yn broses naturiol lle bydd deunyddiau planhigion ac anifeiliaid (biomas) yn cael eu dadelfennu gan ficro-organebau yn absenoldeb aer. Mae nifer o fathau gwahanol o fiomas yn addas ar gyfer treulio anaerobig, gan gynnwys gwastraff bwyd a gweddillion slyri a charthion. Mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i drin y gwastraff bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mewn cartrefi, ar ffermydd, mewn archfarchnadoedd a diwydiannau ar hyd a lled y DU. Mae hyn yn helpu i ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

## Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid

Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yw ein cynllun ar gyfer gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a gedwir. Mae'r Fframwaith hefyd yn ystyried y cyfraniad i ddiogelu iechyd y cyhoedd, yr economi a'r amgylchedd. Mae'r Fframwaith yn olynu Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid Prydain yng Nghymru.

## Arbed

Arbed yw'r rhaglen buddsoddi strategol mewn perfformiad ynni sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymrwymiadau i leihau newid yn yr hinsawdd, helpu i ddileu tlodi tanwydd, a hybu datblygiad economaidd ac adfywio yng Nghymru.

## Dull ar sail Ardal

Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn amlinellu'r gofyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu a chyflwyno dull rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal. Bydd y broses hon yn cynllunio ac yn pennu blaenoriaethau sy'n cydgysylltu'r defnydd a wneir o adnoddau er mwyn sicrhau'r buddiannau cynaliadwy mwyaf yn y tymor hir i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr

ac yn y dyfodol. Bydd yn cyd-fynd â dulliau o reoli dŵr ar sail dalgylch a chynllunio adnoddau dŵr gyda gweithgareddau rheoli tir eraill.

## Cynlluniau Rheoli Asedau

Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu ar sail cylchoedd o bum mlynedd a elwir yn gyfnodau Cynlluniau Rheoli Asedau. Mae'r prisiau yn cael eu pennu gan Ofwat ar ddechrau pob cyfnod, ar ôl i bob cwmni gyflwyno eu costau ar gyfer cyflawni eu cynlluniau busnes.

## Y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi – 2006/7/EC

Mae'r Gyfarwyddeb hon yn canolbwyntio ar ansawdd dŵr ymdrochi yn yr aelod-wladwriaethau. Mae'n ymwneud â dyfroedd a awdurdodwyd ar gyfer ymdrochi gan yr awdurdodau cenedlaethol, a lle mae nifer sylweddol o ymdrochwyr yn mynd i'r dŵr yn rheolaidd. Nid yw'n berthnasol i byllau nofio.

## Twf Glas

Deillia'r syniad o "economi las" o Gynhadledd Rio+ 20 yn 2012 ac mae'n pwysleisio cadwraeth a rheolaeth gynaliadwy, yn seiliedig ar y cynsail fod ecosystemau môr iach yn fwy cynhyrchiol ac yn angenrheidiol ar gyfer economïau morol cynaliadwy

Nod twf glas yw ceisio harneisio potensial cefnforoedd, moroedd ac arfordiroedd ymhellach er mwyn dileu arferion pysgota niweidiol a gorbysgota ac yn lle hynny, cymell agweddau sy'n hyrwyddo twf, yn gwella cadwraeth, ac yn adeiladu pysgodfeydd cynaliadwy, gan roi diwedd ar bysgota anghyfreithlon, heb ei adrodd na'i reoleiddio. Bydd yn sicrhau bod mesurau yn cael eu teilwra ar gyfer meithrin cydweithrediad rhwng gwledydd ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer datblygu polisi, buddsoddi ac arloesi er mwyn cefnogi diogelwch bwyd, lleihau tlodi, a sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau dyfrol.

## Carthbyllau

Tanciau syml yw carthbyllau sy'n storio'r holl garthion o eiddo. Yna bydd tancer yn gwagio'r tanc yn rheolaidd a bydd y carthion yn cael eu trin mewn gwaith trin carthion.

Cyn 1974, cynghorau lleol a fyddai'n gwasanaethu systemau o'r fath, fel rhan o'u darpariaeth garthffosiaeth i'w hardal. Felly, nid oedd deiliaid tai yn talu ffi benodol am y gwasanaeth tancer. Ers creu'r Awdurdodau Dŵr ym 1974, mae taliadau wedi'u cyflwyno ar gyfer gwagio carthbyllau ac mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn cael eu darparu ar sail fasnachol erbyn hyn. Gall y systemau hyn fod yn ddrud i ddeiliaid tai eu cynnal, ac mae llawer o dystiolaeth o orlif a phwmpio anghyfreithlon.

## Strategaeth Tlodi Plant Cymru

Mae trechu tlodi yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Nid yw'r lefelau presennol o dlodi yng Nghymru yn dderbyniol nac yn anochel ac mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn ailddatgan ein dyhead i ddileu tlodi plant erbyn 2020.

## Gwyddoniaeth gan Ddinasyddion

Mae gwyddoniaeth gan ddinasyddion yn cyfeirio at ymgysylltiad cyffredinol y cyhoedd mewn gweithgareddau ymchwil gwyddonol pan fo dinasyddion yn cyfrannu at wyddoniaeth naill ai

gyda'u hymdrech ddeallusol neu wybodaeth gyffredinol neu gyda'u hoffer a'u hadnoddau. Gall unigolion, timau neu rwydweithiau o wirfoddolwyr gyflawni gwyddoniaeth gan ddinasyddion. Mae gwyddonwyr sy'n ddinasyddion yn aml yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwyddonwyr proffesiynol i gyflawni nodau cyffredin. Mae rhwydweithiau mawr o wirfoddolwyr yn aml yn galluogi gwyddonwyr i gyflawni tasgau a fyddai'n rhy ddrud neu'n cymryd gormod o amser i'w cyflawni drwy ddulliau eraill.

## Blaenoriaethau adnewyddu polisi newid yn yr hinsawdd

Blaenoriaethau ein hymagwedd newydd tuag at newid yn yr hinsawdd yw dileu risg hinsawdd, lleihau allyriadau, cynyddu effeithlonrwydd ynni a hyrwyddo ynni carbon isel, gan ganolbwyntio ar dwf gwyrdd, mynd i'r afael â bregusrwydd cymdeithasol a chryfhau llywodraethiant er mwyn cefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad.

## Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru yw cynrychiolydd annibynnol defnyddwyr dŵr domestig a busnes yng Nghymru a Lloegr. Eu rôl yw darparu llais cenedlaethol cryf i ddefnyddwyr a sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i fod yn ganolog i'r diwydiant dŵr. Maent hefyd yn mynd i'r afael â chwynion defnyddwyr os ydynt wedi ceisio ac wedi methu datrys problemau gyda'u cwmnïau dŵr.

## Dŵr Oeri

Mae angen llawer iawn o ddŵr at ddibenion oeri wrth gynhyrchu trydan mewn gorsafoedd pŵer glo, nwy, biomas a niwclear. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o orsafoedd pŵer yn defnyddio dŵr o'r arfordir neu aberoedd ac mae'r rhan fwyaf o'r dŵr yn cael ei ddychwelyd i'r amgylchedd. Defnyddir dŵr i oeri mewn nifer fawr o systemau diwydiannol hefyd, er enghraifft yn y diwydiant dur.

## Cynefin

Daw Cynefin â phobl, grwpiau, busnesau a sefydliadau lleol sy'n darparu gwasanaethau at ei gilydd i wella lle maent yn byw neu'n gweithio.

Mae'n eu helpu i weithio gyda'i gilydd i wneud eu cymuned yn lanach, yn fwy diogel ac yn brafiach i fyw ynddi. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd i fusnesau a phobl weithio a gwella eu hincwm.

## Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ccc

Cwmni cyflenwi dŵr yn unig yw Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ccc. Mae'r ardal gyflenwi yn 83 o gilometrau sgwâr yng ngogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw Dŵr Dyffryn Dyfrdwy gan ei fod wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

## Y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed – 98/83/EC

Mae'r Gyfarwyddeb hon yn ymwneud ag ansawdd dŵr sydd i gael ei yfed gan bobl ac mae'n cynnwys cyflenwadau cyhoeddus a phreifat, gan bennu safonau ar gyfer ansawdd a monitro.

## Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed yw'r rheoleiddiwr annibynnol dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr. Ei rôl yw sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflenwi dŵr yfed diogel sy'n dderbyniol i ddefnyddwyr ac yn cyrraedd y safonau a osodwyd yn y gyfraith. Hefyd, mae'r Prif Arolygydd Dŵr Yfed yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol am ansawdd dŵr yfed preifat a chyhoeddus yng Nghymru.

## Dŵr Cymru Welsh Water

Mae Dŵr Cymru yn darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i'r rhan fwyaf o Gymru a rhannau o orllewin Lloegr. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw Dŵr Cymru gan ei fod wedi'i leoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

## Ecosystem

Mae ecosystem yn cynnwys organebau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organebau) yn ogystal â'r amgylchedd o'u hamgylch (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl gysylltiadau amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt.

## Dull rheoli ar lefel yr ecosystem

Mae dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn canolbwyntio ar reoli pob adnodd gyda'i gilydd – gan gynnal y cyfanrwydd ecolegol a chaniatáu i adnoddau gael eu tynnu/defnyddio – yn hytrach na rheoli nifer o adnoddau yn annibynnol. Mae'r ymagwedd hon yn ceisio sicrhau bod ecosystemau a chymunedau dynol iach a chwbl weithredol yn gallu cyd-fyw a datblygu gyda'i gilydd. Mae'r term dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn deillio'n wreiddiol o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, lle mae'n cael ei ddisgrifio fel strategaeth ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn ffordd integredig, sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd gyfartal.[42]

## Gwasanaethau ecosystemau

Y gwasanaethau hyn yw'r rhai a gawn gan natur megis dŵr yfed glân; rheoleiddio ansawdd yr aer, yr hinsawdd a'r perygl o lifogydd; cyfleoedd ar gyfer hamdden, twristiaeth a datblygiad diwylliannol; a swyddogaethau sylfaenol megis ffurfiant pridd ac ailgylchu maethynnau. Mae rhai o'r rhain yn hollbwysig ar gyfer bywyd ac mae'n haws rhoi pris arnynt mewn termau economaidd. Mae eraill, megis tirweddau hardd, yn llai diriaethol ond yn gwella bywyd serch hynny. Mae cynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau – a'u hadfer ar ôl iddynt ddiflannu neu ddirywio – yn cael eu cydnabod yn gynyddol fel prosesau hollbwysig ar gyfer economi a lles pobl.

Mae gwasanaethau ecosystemau yn cael eu diffinio fel gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein hadnoddau naturiol sydd o fudd i bobl neu fathau eraill o weithgarwch ecosystem. Er nad oes un dull y mae pawb yn cytuno arno i gategoreiddio pob gwasanaeth ecosystem, mae fframwaith Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm[43] yn cael ei dderbyn yn gyffredinol.

[42] http://www.cbd.int/ecosystem

[43] Galwyd am Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Kofi Annan yn 2000. Prif amcan yr Asesiad Ecosystemau, a gyflwynwyd yn 2001, oedd asesu canlyniadau newid i ecosystemau i les dynol a'r sail wyddonol sydd ei hangen i wella cadwraeth a defnydd cynaliadwy o'r systemau hynny a'u cyfraniad at les dynol.

## Elifyn, elifion

Hylif sy'n gollwng o wastraff, er enghraifft o waith diwydiannol neu waith carthion.

## Y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol – 2004/35/EC

Mae'r gyfarwyddeb hon yn ymwneud ag atal ac adfer wedi difrod amgylcheddol yn seiliedig ar egwyddor y llygrwr sy'n talu.

## Ewtroffigedd

Ymateb ecosystem i ychwanegu sylweddau artiffisial neu naturiol, ffosffadau yn bennaf, drwy lanedyddion, gwrteithiau, neu garthion, i system ddyfrol. Mae ewtroffigedd yn codi o ormod o faetholion, sy'n cymell twf aruthrol o blanhigion ac algâu sy'n amsugno'r ocsigen yn y dŵr pan fydd organebau o'r fath yn marw, gan arwain at hypocsia.

## Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod

Nod Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 yw cynyddu allbwn ar gyfer y sector 30% i £7 biliwn erbyn 2020 a gwella proffil ac enw da bwyd a diod o Gymru.

## Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn nodi ein polisïau ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Mae hefyd yn sefydlu fframwaith cyflawni sy'n ateb anghenion Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

## Rheolau Rhwymo Cyffredinol

Gwerthoedd terfyn neu amodau eraill yw Rheolau Rhwymo Cyffredinol (a ddiffinnir mewn deddfau, rheoliadau ac ordinhadau amgylcheddol penodol) ar lefel sector neu lefel ehangach, sy'n cael eu rhoi gyda'r bwriad o'u defnyddio'n uniongyrchol i osod amodau trwydded. Maent yn darparu amodau uniongyrchol neu safonau gofynnol. Mae Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn rhwymo'r Awdurdod Cymwys neu'r gweithredydd. Fodd bynnag, o dan amodau penodol, efallai na fydd rhai rheolau cyffredinol yn orfodol a bydd gwyriad yn cael ei ganiatáu, er mai'r hyn a ddisgwylir fel arfer fyddai i'r rheolau gael eu defnyddio'n uniongyrchol.

## Twf gwyrdd

Mae twf gwyrdd yn ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd, gan sicrhau bod asedau naturiol yn parhau i ddarparu'r adnoddau a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gwneud y broses dyfu yn effeithlon o ran adnoddau, yn isel o ran carbon, yn lanach (lleihau effeithiau llygredd ac effeithiau amgylcheddol) a bod yn fwy cydnerth (i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a pheryglon naturiol) heb arafu twf o reidrwydd[44].

[44] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd: Tuag at Dwf Gwyrdd

## Twf Gwyrdd Cymru

Nod cronfa arfaethedig Twf Gwyrdd Cymru yw cynyddu a chyflymu prosiectau i sicrhau buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio'n bennaf, er nad yn gyfan gwbl, ar annog buddsoddi mewn adnoddau effeithlon, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a phrosiectau gwastraff.

## Y Gyfarwyddeb Dŵr Daear – 2006/118/EC

Pwrpas y Gyfarwyddeb hon yw atal a dileu llygredd dŵr daear. Mae ei darpariaethau'n cynnwys: meini prawf ar gyfer asesu statws cemegol dŵr daear, meini prawf ar gyfer datgan tueddiadau cynyddol arwyddocaol a pharhaus yn lefel y llygredd mewn dŵr daear, a darpariaethau ar gyfer diffinio mannau cychwyn ar gyfer gwyrdroi'r tueddiadau hyn, ac atal a chyfyngu ar ryddhau llygredd anuniongyrchol (ar ôl trylifo drwy bridd neu isbridd) i ddŵr daear.

## Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd – 92/43/EEC a'r Gyfarwyddeb Adar – 2009/147/EC

Y Cyfarwyddebau hyn yw conglfaen polisi cadwraeth natur Ewrop, yn seiliedig ar ddwy elfen bwysig, rhwydwaith Natura 2000 o safleoedd gwarchodedig a gwarchod rhywogaethau. Mae'r gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gwarchod mwy na 1,000 o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion a mwy na 200 o "fathau o gynefinoedd" (e.e. mathau arbennig o fforestydd, gwlyptiroedd, ac ati) o bwysigrwydd Ewropeaidd.

## Hydromorffoleg

Hydromorffoleg yw'r term a ddefnyddir i reoli basn afon i ddisgrifio'r prosesau a nodweddion hydrolegol a geomorffaidd afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Y rhain, i bob pwrpas, yw nodweddion ffisegol siâp, ffiniau a chynnwys crynofa ddŵr.

O ddwy elfen hydromorffoleg, mae hydroleg yn ymwneud â llif dŵr. Mae'n cynrychioli cyfaint a dynameg llifoedd, lefelau a rhyng-gysylltiadau dŵr â chrynofeydd dŵr eraill, gan gynnwys dŵr daear.

Mae morffoleg yn ymwneud â ffurf ffisegol crynofa ddŵr. Mae'n ymwneud â lled, dyfnder a strwythur afon, llyn neu wely'r môr a chyflwr y gwely, cefnen a thraethau.

Pan fydd ansawdd y dŵr yn dda, gall hydromorffoleg gwael gyfyngu ar yr ecoleg. Er enghraifft, ni fydd sianel goncrid yn cynnal yr amrywiaeth ecolegol y byddai sianel raean yn ei chynnal, a gall rhwystr mewn nant rwystro pysgod mudo neu symudiad gwaddodion.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Integredig

Proses gynllunio a phennu blaenoriaethau yw rheoli adnoddau naturiol yn integredig sy'n cydgysylltu'r prosesau cynnal a chadw, gwella a defnyddio adnoddau naturiol – gan roi ystyriaeth i bob gwasanaeth ecosystem – er mwyn sicrhau'r buddiannau gorau yn y tymor hir i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd angen dilyn y broses hon i allu rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, er mwyn cyflawni mwy o fuddiannau hirdymor i'r economi, i gymdeithas ac i'r amgylchedd.

## Cynllun Morol

Bydd Cynllunio Morol yn ein helpu i reoli gweithgareddau morol yn gynaliadwy. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Gynllunio Morol yng Nghymru ac mae'r broses gynllunio eisoes wedi dechrau. Rydym yn datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys dyfroedd y glannau a dyfroedd môr mawr Cymru.

## Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

Nod y Gyfarwyddeb hon yw gwarchod yr amgylchedd morol ar draws Ewrop.

Cafodd Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ei chynnwys yng nghyfraith y DU o dan Reoliadau'r Strategaeth Forol 2010 a ddaeth i rym ar 15 Gorffennaf 2010.

## Polisi Adnoddau Naturiol

Cyhoeddwyd y Datganiad Polisi Adnoddau Naturiol hwn ochr yn ochr â chyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru), ac mae'n disgrifio'r heriau a'r blaenoriaethau allweddol o ran rheoli ein hadnoddau naturiol[45]. Caiff ei ddefnyddio i lywio gweithrediad a threialu gwaith rheoli adnoddau naturiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru gan adeiladu ar y treialon ardal cyfredol, ac mae'n gosod y fframwaith y bydd ein polisïau adnoddau naturiol ar y tir yn eu dilyn ac yn eu datblygu ymhellach yn eu hardaloedd.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

## Y Gronfa Natur

Bydd y Gronfa Natur yn ein helpu i ymateb i'r heriau y mae ein bywyd gwyllt a'n cynefinoedd yn eu hwynebu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur.

Mae'r Gronfa Natur yn cynorthwyo 20 o brosiectau i fynd i'r afael â dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau buddiannau i gymunedau. Mae ffocws y buddsoddiad ar gyflawni 5 blaenoriaeth allweddol mewn 7 Ardal Weithredu Byd Natur ledled Cymru.

## Cynllun Adfer Natur

Mae bioamrywiaeth – amrywiaeth a helaethrwydd y byd naturiol – yn sail i'n bywydau a'n bywoliaeth drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol megis y cylch dŵr a ffurfiant pridd, yn ogystal â gwasanaethau diwylliannol fel ein tirweddau a bywyd gwyllt.

Byddwn yn rhoi cynllun ar waith i gynnal bioamrywiaeth er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn, ac i ddiogelu ein rhywogaethau, ein cynefinoedd a'n hecosystemau.

Bydd Cynllun Adfer Natur Cymru hefyd yn cyflawni ein hymrwymiad, o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, i gael strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol a chynllun gweithredu ar waith erbyn 2015.

[45] Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn diffinio'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau y maent yn eu darparu, a thrwy wneud hynny, ateb anghenion cenedlaethau o bobl yn y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hangenion nhw.

## Nyth

Cynllun gan Lywodraeth Cymru yw Nyth sy'n gweithio i helpu i leihau nifer y cartrefi sy'n wynebu tlodi tanwydd a gwneud cartrefi Cymru yn llefydd cynhesach a mwy effeithlon i fyw ynddynt o ran y defnydd o ynni.

Mae Nyth yn cynnig amrywiaeth o gyngor a chymorth i bawb ar arbed ynni a chynyddu incwm.

## Y Gyfarwyddeb Nitradau – 91/676/EC

Ei hamcanion yw gwarchod dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol drwy gyfrwng nifer o fesurau. Mae'r rhain yn cynnwys monitro dŵr wyneb a dŵr daear, dynodi parthau perygl, cyhoeddi codau o arferion amaethyddol da, rhoi rhaglenni gweithredu ar waith a gwerthuso'r camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith.

## Ofwat (Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr)

Ofwat yw'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ei rôl yw helpu'r sector i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn perthynas â chwsmeriaid, yr amgylchedd a'r gymdeithas ehangach.

## Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020

Mae'r strategaeth hon yn gosod y weledigaeth i ni a'r diwydiant weithio mewn partneriaeth er mwyn cynyddu gwariant ymwelwyr â Chymru.

## Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE)

Mae cynlluniau TWE yn cynnwys gwneud taliadau i reolwyr tir neu adnoddau naturiol eraill yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau ecosystemau penodol (neu gamau gweithredu y mae disgwyl iddynt ddarparu'r gwasanaethau hyn) y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu fel arall yn absenoldeb taliad. Gwneir taliadau gan fuddiolwyr y gwasanaethau dan sylw, er enghraifft, unigolion, cymunedau, busnesau neu lywodraethau sy'n gweithredu ar ran gwahanol bartïon. Bydd buddiolwyr a rheolwyr tir neu reolwyr adnoddau yn ymrwymo i gytundebau TWE ar sail wirfoddol ac nid oes unrhyw reidrwydd arnynt i wneud hynny[46].

## Dŵr Yfed

Dŵr yfed yw dŵr sy'n ddigon diogel i gael ei yfed gan bobl neu gael ei ddefnyddio gyda risg isel o niwed uniongyrchol neu hirdymor.

## Adolygiad Pris Dŵr

Mae Ofwat yn cynnal adolygiad prisiau bob pum mlynedd. Mae Ofwat yn gosod y pris, y buddsoddiad a'r pecyn gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn ei gael. Mae hyn yn cynnwys gosod terfynau ar y prisiau y mae cwmnïau dŵr yn cael ei godi ar eu cwsmeriaid. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i Ofwat gydbwyso buddiannau defnyddwyr gyda'r angen i wneud yn siŵr y gall y sectorau ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth. Hefyd, mae angen i Ofwat sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol eraill, gan gynnwys eu dyletswyddau amgylcheddol a chymdeithasol.

[46] Payments for Ecosystem Services: A Best Practice Guide DEFRA May 2013

## Partneriaethau sgiliau rhanbarthol

Ceir tair partneriaeth sgiliau rhanbarthol yng Nghymru. Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi De-ddwyrain Cymru a Phartneriaeth Dysgu Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru yn mynd i'r afael â heriau Cynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2014.

Mae pob un o'r tair partneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr, awdurdodau lleol, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae pedair rôl gan y partneriaethau:

- Dadansoddi marchnadoedd llafur lleol a chydnabod anghenion sgiliau'r gweithlu.
- Cynghori Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer anghenion hyfforddi.
- Ymgysylltu â chyflogwyr lleol a gweithio'n strategol i nodi anghenion sgiliau.
- Sicrhau y bydd y cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol mor effeithiol ag y bo modd.

## Cydnerthedd

Yng nghyd-destun ecosystemau, mae cydnerthedd yn golygu gallu ecosystem i wrthsefyll neu i ymadfer yn dilyn aflonyddwch a'i gallu i oroesi ac ymaddasu er mwyn cynnal ei hamrywiaeth fiolegol, ei phrosesau naturiol a'i darpariaeth o wasanaethau ecosystemau. Gall cydnerthedd arddangos trothwyon, sef lefelau o aflonyddwch na all y system ymadfer ohonynt, neu pan gaiff ei thrawsnewid i gyflwr arall (sy'n aml yn annymunol, er nad yn anochel). Mae ecosystemau yn debygol o wynebu aflonyddwch ar ffurf nifer o fathau o bwysau ac ysgogiadau, sy'n cynnwys newid yn yr hinsawdd a'i sgil-effeithiau. Wrth reoli ein hadnoddau, mae'n bwysig ein bod yn ystyried gallu ecosystemau i wrthsefyll, i ymaddasu neu i ymadfer yn dilyn aflonyddwch.

## Basn Afon

Ardal o dir yw basn afon y mae pob dŵr wyneb yn llifo iddo drwy gyfres o nentydd, afonydd, a llynnoedd o bosibl, i'r môr mewn un geg afon, aber neu ddelta.

## Ardal basn afon

Ardal o dir a môr yw ardal basn afon sy'n cynnwys un neu fwy o fasnau afonydd cyfagos a'u dŵr daear a'u dŵr arfordir cysylltiedig, a nodir o dan Erthygl 3(1) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr fel y brif uned ar gyfer rheoli basn afon.

## Cynlluniau Rheoli Basn Afon

Mae angen Cynllun Rheoli Basn Afon bob chwe blynedd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pob ardal basn afon. Mae'r cynllun yn disgrifio'r ardal basn afon, a'r pwysau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr. Mae'n dangos beth y mae hyn yn ei olygu i gyflwr presennol amgylchedd dŵr yr ardal basn afon, a pha gamau a gymerir i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Mae'n nodi pa welliannau sy'n bosibl a sut y bydd y camau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth i'r amgylchedd lleol – y dalgylchoedd, yr aberoedd, yr arfordir a'r dŵr daear.

## Teithiau Cerdded ar hyd yr Afon

Arolygon gweledol systematig o ddalgylchoedd drwy gerdded yw teithiau cerdded ar hyd yr afon, a elwir hefyd yn arolygon dalgylch. Yn achos afonydd neu gamlesi, gwneir hyn fel arfer drwy ddilyn llwybr crynofa ddŵr wrth gerdded i fyny'r afon. Mae lleoliad, difrifoldeb ac achos unrhyw broblemau yn cael eu cofnodi, ynghyd â thystiolaeth ffotograffig. Gellir olrhain problemau i ffynonellau penodol hefyd, neu byddant yn cael eu gadael ar gyfer arolygon dilynol mwy manwl, yn dibynnu ar amcanion penodol yr arolwg.

Gallant fod yn ddull effeithiol iawn o ddarparu ciplun o ddalgylchoedd trefol a gwledig a thystiolaeth ar gyfer gweithredu, yn arbennig wrth ymdrin â llygredd gwasgaredig.

## Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020

Cynllun 7 mlynedd Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yw Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a chaiff ei hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.

## Scottish and Southern Energy Water

Mae Scottish and Southern Energy Water yn darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth ym Mharc Llanilid. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw Scottish and Southern Energy Water gan ei fod wedi'i leoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

## Tanciau carthion

Trin carthion sylfaenol yn unig y mae'r tanciau hyn yn ei wneud, gan storio deunydd solet a rhyddhau gorlif o garthion sydd wedi'u trin yn rhannol i'r tir, lle bydd yn cael ei drin ymhellach yn y system ffosydd cerrig. Mae'n bosibl na fydd yr elifion o systemau o'r fath yn cael eu rhyddhau i gyrsiau dŵr. Fel gyda gweithfeydd trin carthion, bydd angen cofrestru eithriad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gollyngiad, ac ni chodir tâl am hyn. Os yw'n bosibl y gallai'r gollyngiad effeithio ar safle sensitif (megis twll turio tynnu dŵr neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), gallai fod angen trwydded amgylcheddol, a bydd ffi i'w thalu amdani.

## Severn Trent Water Plc

Mae Severn Trent Water Plc yn darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i rai cwsmeriaid yng nghanolbarth Cymru ac ar draws Canolbarth Lloegr. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw Severn Trent Water Plc gan ei fod wedi'i leoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

## Carthion

Deunydd gwastraff o leoliadau domestig neu ddiwydiannol a gaiff ei gludo ymaith mewn carthffosydd neu ddraeniau er mwyn ei waredu neu ei droi'n ffurf nad yw'n wenwynig.

## Gweithfeydd trin carthion

Ceir nifer o weithfeydd trin carthion bach yng Nghymru. Gall nifer o weithgynhyrchwyr ddarparu gwasanaeth cyflawn i osod a chynnal a chadw systemau o'r fath. Mae angen cyflenwad trydan arnynt fel arfer, yn ogystal ag archwiliadau rheolaidd a bydd angen tynnu'r

slwtsh ohonynt yn achlysurol. Maent yn rhyddhau dŵr sydd wedi'i buro'n ddigonol i'r amgylchedd, naill ai i'r ddaear neu i gwrs dŵr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen cofrestru eithriad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y gollyngiad, ac ni chodir tâl am hyn. Os yw'n bosibl y gallai'r gollyngiad effeithio ar safle sensitif (megis twll turio tynnu dŵr neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), gallai fod angen trwydded amgylcheddol, a bydd ffi i'w thalu amdani.

## Carthffosiaeth

System o bibellau a ddefnyddir i gael gwared ar ddŵr gwastraff a sbwriel.

## Ffosydd cerrig

Ffos gerrig sy'n cludo dŵr wyneb o'ch to neu ddreif drwy bibellau i bwll tanddaearol mawr gyda graean oddi mewn i ffin eich eiddo, a bydd wedi'i lleoli 10 i 15 troedfedd i ffwrdd o'r seiliau fel arfer.

## Systemau Draenio Cynaliadwy – SDCau

Caiff system ddraenio gynaliadwy ei chynllunio i leihau effaith bosibl gollyngiadau draenio dŵr wyneb ar ddatblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

## Datblygu Cynaliadwy

Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaethau ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n:

- hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei gyfyngiadau – gan ddefnyddio ein cyfran deg o adnoddau ein daear yn unig a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol[47].

## Pant

Llain isel o dir yw pant, yn arbennig un sy'n llaith neu'n gorslyd. Gall y term gyfeirio at nodwedd tirlun naturiol neu un wedi'i chreu gan bobl. Mae pantiau artiffisial yn cael eu cynllunio'n aml i reoli dŵr ffo, hidlo llygryddion a chynyddu ymdreiddiad dŵr glaw.

## Trechu tlodi tanwydd

Mae aelwyd mewn tlodi tanwydd os yw'n gwario 10% neu fwy o'i hincwm net ar gostau ynni. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r camau gweithredu y bwriadwn eu rhoi ar waith i drechu tlodi tanwydd.

## Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn nodi'r hyn rydym yn ei wneud i adeiladu cymunedau cydnerth ac i helpu i atal a lleihau tlodi yng Nghymru.

[47] Cynllun Datblygu Cynaliadwy – www.wales.gov.uk/newsroom/sustainabledevelopment/2013/130312-sustainabledevelopment/?skip=1&lang=cy

## Dyfroedd trawsnewidiol

Crynofeydd o ddŵr wyneb ger ceg afon yw'r rhain ac maent yn rhannol halenog o ganlyniad i'w hagosatrwydd at ddyfroedd arfordirol ond cânt eu dylanwadu'n helaeth gan lifau dŵr croyw.

## Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Tuag at Ddyfodol Diwastraff yw dogfen strategaeth wastraff drosfwaol Cymru.

Fe'i lansiwyd ym mis Mehefin 2010. Mae'r ddogfen strategaeth yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid i ni i gyd eu cymryd os ydym am gyrraedd ein huchelgais o fod yn genedl sy'n rhoi lle blaenllaw i ailgylchu erbyn 2025 ac yn wlad ddiwastraff erbyn 2050.

## United Utilities

United Utilities sy'n rheoli'r rhwydwaith dŵr a gwastraff a reoleiddir yng ngogledd-orllewin Lloegr, sy'n cynnwys Cumbria, Swydd Gaer, Manceinion Fwyaf, Swydd Gaerhirfryn a Glannau Mersi. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw United Utilities gan ei fod wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

Caiff United Utilities ei ddŵr o ardaloedd basn afon y Dyfrdwy a'r Hafren. Caiff dŵr ei dynnu o afon Dyfrdwy yng Nghaer a'i gyflenwi i gwsmeriaid yn rhan ddeheuol eu Hardal Adnoddau Integredig. Mae United Utilities yn defnyddio dŵr o Lyn Efyrnwy, sy'n cael ei drin yng Nghroesoswallt a'i gyflenwi i'w cwsmeriaid, yn bennaf yn Swydd Gaer a Glannau Mersi. Mae'r ddwy system gyflenwi yn rhan annatod o'u system cyflenwi dŵr. Hefyd, mae gan United Utilities seilwaith cyflenwi dŵr yng Nghymru sy'n cyflenwi dŵr i gwsmeriaid yn Swydd Gaer drwy Gamlas Llangollen.

## Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol – 91/271/EEC

Nod y Gyfarwyddeb hon yw diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau niweidiol rhyddhau dŵr gwastraff trefol ac effeithiau rhai sectorau diwydiannol penodol. Mae'n ymwneud â chasglu, trin a rhyddhau'r dyfroedd gwastraff hyn.

## Crynofa ddŵr

Mae crynofa ddŵr yn golygu elfen arwahanol a sylweddol o ddŵr wyneb megis llyn, cronfa ddŵr, nant, afon neu gamlas, rhan o nant, afon neu gamlas, dyfroedd trawsnewidiol neu ddarn o ddŵr arfordirol.

## Cwmni Dŵr

Mae cwmni dŵr yn sefydliad sy'n cyflenwi dŵr a/neu wasanaethau carthffosiaeth i eiddo domestig a safleoedd busnes.

## Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr – 2000/60/EC

Sefydlodd y Gyfarwyddeb hon fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli dŵr. Mae ei hamcanion yn cynnwys atal a lleihau llygredd, hybu defnydd cynaliadwy o ddŵr, gwarchodaeth amgylcheddol, gwella ecosystemau dyfrol a lliniaru effeithiau llifogydd a sychder.

Mae pennu statws crynofa ddŵr a rhesymau dros fethiant yn gymhleth ac mae ein dealltwriaeth yn newid dros amser. Mae nifer y crynofeydd dŵr, a'u ffiniau hyd yn oed, yn newid wrth i ni ddysgu mwy. Rydym yn mabwysiadu'r ymagwedd ganlynol er mwyn asesu statws crynofeydd dŵr:

- Rydym yn monitro 'elfennau' gwahanol (e.e. pysgod) ar gyfer crynofeydd dŵr gwahanol. Pan fydd 'sgôr' elfen yn is na'r disgwyl, mae'r elfen honno yn achosi i'r grynofa ddŵr fethu.
- Yna byddwn yn casglu tystiolaeth er mwyn canfod pam y mae'r elfen yn methu – y rhain yw'r 'Rhesymau dros Fethu'. Gall crynofa ddŵr fethu am fwy nag un rheswm a gall elfen fethu am fwy nag un rheswm.
- Ein lefel o ddealltwriaeth sy'n pennu ein sicrwydd ynghylch Rheswm dros Fethu: 'Cadarnhawyd' = tystiolaeth gref, 'Tebygol' = tystiolaeth resymol, 'Amheuir' = tystiolaeth awgrymog.
- Rydym hefyd yn ystyried difrifoldeb y Rheswm dros Fethu – a ydym yn credu ei fod yn cael effaith arwyddocaol neu ddibwys ar elfen sy'n methu.

## Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru

Mae Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru yn fenter sy'n dwyn ynghyd asiantaethau perthnasol i gytuno ar sut i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd drwy sicrhau cyflenwad diogel o ddŵr yfed. Mae asiantaethau yn y Bartneriaeth yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, awdurdodau lleol, Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru, Dŵr Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Cynllunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr – WSUDs

Dull o gynllunio tir a pheirianneg yw Cynllunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr, sy'n integreiddio'r cylch dŵr trefol, gan gynnwys dŵr storm, dŵr daear a rheoli dŵr gwastraff a'r cyflenwad dŵr mewn gwaith cynllunio trefol i leihau dirywiad amgylcheddol a gwella apêl esthetig a hamdden.

## Gwasanaethau dŵr

Mae gwasanaethau dŵr yn golygu pob gwasanaeth sy'n darparu dŵr i gartrefi, sefydliadau cyhoeddus neu unrhyw weithgarwch economaidd. Mae hyn yn cynnwys tynnu, cronni, storio, trin a dosbarthu dŵr wyneb neu ddŵr daear. Mae hefyd yn cynnwys casglu dŵr gwastraff a chyfleusterau trin sy'n ei ryddhau wedyn i mewn i ddŵr wyneb.

## System Ddŵr

Mae System Ddŵr yn golygu afon a'i holl isafonydd neu'r dull o gyflenwi dŵr i gartrefi.

## Ymgymerwyr Dŵr

Mae'r term 'ymgymerwr dŵr' yn golygu cwmni sydd wedi'i benodi o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91) i ddarparu gwasanaethau dŵr i ardal ddaearyddol benodol.

## Cynllun Gweithredu Sgiliau Llywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd y Cynllun hwn ym mis Gorffennaf 2014 ac mae'n nodi camau gweithredu polisi allweddol a fydd yn digwydd hyd nes 2016 i ddarparu'r sail ar gyfer polisi cyflogaeth a sgiliau yn ystod y degawd nesaf. Mae'r cynllun hwn hefyd yn amlinellu'r camau y gallwn eu cymryd yn y tymor byr i gefnogi'r system sgiliau ôl-19 oed a chreu system sgiliau gynaliadwy.

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau eu bod yn cael gwybod pa mor iach a digonol yw cyflenwadau dŵr yn eu hardaloedd. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd o dan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 i reoleiddio cyflenwadau dŵr preifat, y ceir nifer sylweddol ohonynt mewn ardaloedd gwledig. Fel awdurdodau cynllunio mae angen iddynt hefyd ystyried argaeledd seilwaith dŵr wrth wneud penderfyniadau. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn gyfrifol am fabwysiadu a chynnal systemau draenio cynaliadwy (SDCau) yn y dyfodol, ac mae ganddynt rôl ehangach yn rheoli perygl llifogydd lleol.

## Strategaeth Coetiroedd i Gymru

Mae strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru yn nodi ein cynllun 50 mlynedd ar gyfer datblygu a defnyddio coetiroedd a choed Cymru i ddod â'r budd mwyaf posibl i bobl Cymru.

# Atodiad C

## Map yn dangos ffiniau cwmnïau dŵr yng Nghymru

